

Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2021 Crynodeb Bil

Tachwedd 2021



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.ymchwil.senedd.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 7301**
E-bost: **phil.boshier@senedd.cymru**
Twitter: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**
Gwefan: **ymchwil.senedd.cymru**

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2021

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2021

Crynodeb Bil

Tachwedd 2021

Awdur:

Phil Boshier

Mae'r Bil yn diddymu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ac yn creu corff newydd a noddir gan Lywodraeth Cymru o'r enw'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

Bydd y corff hwn yn gyfrifol am gyllido, goruchwylio a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru.

Mae addysg drydyddol yn cwmpasu addysg ôl-orfodol gan gynnwys addysg uwch, addysg bellach, prentisiaethau, y chweched dosbarth ac addysg oedolion yn y gymuned. Ar hyn o bryd, CCAUC sy'n rheoleiddio a chyllido addysg uwch, ac mae Llywodraeth Cymru yn gwneud hynny ar gyfer y sectorau addysg drydyddol eraill – bydd y Comisiwn yn cyfuno'r gweithgareddau hyn o fewn un corff.

Mae'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol [wedi eu cyhoeddi ar wefan y Senedd](#).



Cynnwys

1. Crynodeb gweithredol.....	1
Cefndir	1
Rheolaeth Gweinidogion Cymru	1
Cwmpas y Comisiwn.....	2
Amcanion polisi.....	2
Rhannau, a phwyntiau allweddol ym mhob rhan	3
Rhan 1.....	3
Rhan 2.....	3
Rhan 3.....	4
Rhan 4	5
Rhan 5.....	6
Rhan 6.....	6
Rhan 7.....	7
Pwerau	7
Costau a chychwyn.....	7
2. Cefndir y Bil	9
Argymhellion yr Athro Hazelkorn.....	9
Ymateb Llywodraeth Cymru a datblygu polisi	10
Y trefniadau rheoleiddio a chyllido presennol	11
Cwmpas posibl y Comisiwn newydd	12

3. Crynodeb o'r Bil13

Amcanion polisi'r Bil13

Rhan 1: Fframwaith strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil14

Y Comisiwn 15

Dyletswyddau strategol y Comisiwn..... 15

Strategaeth ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil16

Rhyddid academiaidd..... 16

Cydnawsedd â chyfraith elusennau..... 17

Canllawiau a chyfarwyddydau Gweinidog Cymru..... 17

Swyddogaethau ychwanegol y Comisiwn 17

Diddymu CCAUC..... 17

Rhan 2: Cofrestru a rheoleiddio darparwyr addysg drydyddol 17

Pennod 1 - Cofrestru darparwyr addysg drydyddol.....18

Y gofrestr a'r weithdrefn gofrestru18

Amodau cofrestru.....18

Monitro a gorfodi amodau cofrestru20

Datgofrestru.....20

Adolygiadau o benderfyniadau cofrestru.....21

Datganiadau terfyn ffioedd 21

Pennod 2 – Sicrwydd ansawdd a gwella ansawdd 22

Swyddogaethau sicrhau ansawdd cyffredinol 22

Asesu ansawdd mewn addysg uwch..... 23

Arolygu addysg bellach neu hyfforddiant etc.....	24
Pennod 3 – Darpariaethau gorfodi a gweithdrefnol pellach	25
Ymyrryd yn ymddygiad sefydliadau addysg bellach	25
Mynediad i wybodaeth a chyfleusterau	26
Y weithdrefn rhybuddio ac adolygu.....	26
Dyletswyddau amrywiol.....	27
Cyfarwyddydau	28
Pennod 4 – Cyffredinol	28
Rhan 3: Sicrhau addysg drydyddol ac ymchwil a’u cyllido.....	28
Cyllido'r Comisiwn.....	28
Cyllido addysg uwch.....	29
Addysg bellach a hyfforddiant.....	30
Cymorth ariannol ar gyfer prentisiaethau	32
Ymchwil ac arloesi	33
Cyrff sy'n cydlafurio: cydsyniad	33
Cyfarwyddydau cymorth ariannol	34
Rhan 4: Prentisiaethau	34
Rhagarweiniol.....	34
Swyddogaethau Gweinidogion Cymru.....	35
Swyddogaethau'r Comisiynydd	36
Darpariaethau atodol ynghylch cytundebau prentisiaeth.....	36
Rhan 5: Diogelu dysgwyr, gweithdrefnau cwyno ac ymgysylltu â dysgwyr	36

Rhan 6: Gwybodaeth, cyngor a chanllawiau	37
Rhan 7: Amrywiol a chyffredinol.....	38
Corfforaethau addysg uwch.....	38
Ymgynghori ynghylch gwasanaethau gyrfaedd	39
Cyffredinol	39
Atodlenni	40
4. Costau ac effeithiau'r Bil.....	41
Arfarnu'r opsiynau.....	41
Costau a rhagdybiaethau	42
Aseidiadau Effaith Integredig	45
5. Yr ymateb i'r Bil	46
6. Amserlen arfaethedig ar gyfer gweithredu	49
Pryderon a fynegwyd gan randdeiliaid	49

1. Crynodeb gweithredol

Cefndir

Yn 2015 comisiynodd Llywodraeth Cymru yr Athro Ellen Hazelkorn i adolygu'r trefniadau goruchwylio addysg ôl-orfodol yng Nghymru, gan 'gyfeirio'n benodol' at ddyfodol CCAUC.

Mae'r Athro Hazelkorn yn sôn am nifer o heriau ac yn gwneud argymhellion ar gyfer y sector addysg drydyddol yn ei hadroddiad terfynol, **Tuag at 2030**. Wrth ymateb i'r adroddiad, nododd Llywodraeth Cymru ar y pryd yr hyn a gynigai yw dau '**brif argymhelliad**' yr adroddiad:

- Datblygu gweledigaeth gyffredinol ar gyfer y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol
- Sefydlu corff newydd hyd braich sy'n gyfrifol am oruchwylio, cyfeiriad strategol ac arweinyddiaeth y sector

Mae'r Bil yn bwrw ymlaen â'r ail argymhelliad hwn, drwy greu corff newydd a noddir gan Lywodraeth Cymru o'r enw'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (y Comisiwn).

Bydd pwerau CCAUC a Gweinidogion Cymru yn cael eu cydgrynhoi a bydd pwerau newydd yn cael eu creu, a bydd pob un ohonynt yn arferadwy gan y Comisiwn fel y gall reoleiddio, goruchwylio a chyllido'r sector addysg drydyddol gyfan fel un. Bydd CCAUC yn cael ei ddiddymu.

Rheolaeth Gweinidogion Cymru

Bydd y Comisiwn yn atebol i Weinidogion Cymru a bydd Gweinidogion Cymru yn gallu dylanwadu ar y Comisiwn. Mae'r Bil yn darparu bod yn rhaid i'r Comisiwn roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru, ac mae'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi cyfarwyddydau cyffredinol i'r Comisiwn ynghylch arfer ei swyddogaethau. Caiff Gweinidogion Cymru hefyd osod swyddogaethau atodol arno i benodi Aelodau'r Comisiwn gan gynnwys y Cadeirydd, a gallant hefyd addasu cynllun strategol y Comisiwn, ar yr un amod yr ymgynghorir ag ef.

Cwmpas y Comisiwn

O ragamcanu gan ddefnyddio'r lefelau cyllido cyfredol, dangosir y byddai'r Comisiwn yn gyfrifol am adnoddau o dros £800 miliwn y flwyddyn, sy'n golygu y byddai'n rheoli mwy o gyllid nag unrhyw gorff cyhoeddus arall yng Nghymru, heblaw GIG Cymru. Byddai'r darparwyr sy'n cael eu rheoleiddio a'u cyllido ganddo yn cynnig darpariaeth i dros 300,000 o ddysgwyr a myfyrwyr yn ystod blwyddyn academaidd.

Amcanion polisi

Mae Pennod 1 o'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi disgrifiad cryno o'r Bil.

Nid yw'r amcanion polisi y bwriedir i'r Bil helpu eu cyflawni wedi'u nodi'n glir ym Mhennod 3. Mae Pennod 3 yn nodi:

- bod y Bil yn creu corff a noddir gan Lywodraeth Cymru (y Comisiwn) ac mai bwriad y polisi yw i'r Comisiwn allu ymdrin â'r sectorau addysg ôl-16 a oedd gynt ar wahân 'fel un sector'.
- bod Llywodraeth Cymru wedi drafftio gweledigaeth **anstatudol** ar gyfer y sector addysg drydyddol, ac mae'n disgrifio sefydlu'r Comisiwn fel 'agwedd allweddol' ar gyflawni'r weledigaeth honno, gan ddadlau bod dyletswyddau strategol y Comisiwn yn cyd-fynd â'r weledigaeth. Y tu hwnt i Bennod 3, mae Pennod 7 yn nodi pum nod lefel uchel i'r Comisiwn (sy'n wahanol mewn sawl ystyr i'r nodau yn y weledigaeth) ac 11 amcan lefel uchel i'r Comisiwn. Dyma'r nodau lefel uchel:
 - System sy'n cryfhau llesiant a sylfeini economaidd Cymru, yn annog menter, yn ymateb i anghenion cyflogwyr ac yn galluogi sylfaen ymchwil berthnasol sy'n tyfu.
 - System sy'n galluogi dysgu, asesu a chynnydd trwy gyfrwng y Gymraeg.
 - System sy'n canolbwyntio ar y dysgwr ac sy'n hyrwyddo dysgu gydol oes ac yn cyflwyno dewis ac arweiniad effeithiol, ynghyd â mynediad teg at gyfleoedd a llwybrau dysgu priodol.
 - System hynod gadarn, integredig, gynaliadwy ac ymatebol sy'n hyrwyddo cydweithredu, rhagoriaeth; ac sy'n rheoleiddio ag ymreolaeth.
 - System a gefnogir gan ddarparwyr cydweithredol ac ymgysylltiol sy'n cyfoethogi'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

Er y gall y weledigaeth, yn ymarferol, gael ei hadlewyrchu yn y datganiad o flaenoriaethau strategol y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ei wneud o dan y Bil, nid yw'r Bil yn gosod unrhyw ddyletswydd benodol ar Weinidogion Cymru na'r Comisiwn i roi sylw uniongyrchol i'r weledigaeth.

Rhannau, a phwyntiau allweddol ym mhob rhan

Rhan 1

Mae Rhan 1 o'r Bil yn gwneud darpariaeth i sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ac yn nodi dyletswyddau cyffredinol y Comisiwn.

- Rhaid i'r **Comisiwn** gyflwyno cynllun strategol, sy'n cyfeirio at y datganiad o flaenoriaethau strategol y mae'n rhaid i **Weinidogion Cymru** ei wneud o dan y Bil, a chyfres o naw dyletswydd strategol y Comisiwn i Weinidogion Cymru eu cymeradwyo.
- Gall **Gweinidogion Cymru** ddyroddi cyfarwyddyd i'r Comisiwn ynghylch arfer unrhyw un o'r swyddogaethau y mae'n rhaid iddo gydymffurfio â nhw.
- Diddymir Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC).

Rhan 2

Mae Rhan 2 yn gwneud darpariaeth ar gyfer trefniadau'r Comisiwn o ran cofrestru a rheoleiddio darparwyr addysg drydyddol.

- Bydd dyletswydd ar **Weinidogion Cymru** i nodi categorïau'r gofrestr y gellir cofrestru darparwyr ynddynt, creu amodau gorfodol cychwynnol a pharhaus newydd ar gyfer cofrestru y tu hwnt i'r rhai sydd eisoes ar wyneb y Bil, a phennu manylion amodau cofrestru mewn perthynas ag uchafswm ffioedd a chyfleoedd cyfartal.
- Mae'r Rhan hon yn cynnwys mecanwaith gorfodi uwchgyfeiriol i'r **Comisiwn** orfodi cydymffurfedd ag amodau. Yn gyffredinol, gall y Comisiwn fonitro cydymffurfedd, gall gynghori ar gydymffurfedd, gall gynnal adolygiadau sy'n berthnasol i gydymffurfedd, gall ddyroddi cyfarwyddyd (gyda rhybudd hysbysu ymlaen llaw), ac yn olaf gall ddatgofrestru darparwr. Gwneir darpariaeth yn y Bil ar gyfer diogelwch ar ffurf proses adolygu.

- Mae'r **Comisiwn** yn ennill peth asiantaeth dros Estyn, a bydd y cyllid mewn perthynas â gwaith arolygu Estyn ar gyfer darpariaeth addysg drydyddol yn dod gan y Comisiwn. Bydd hyn yn golygu y bydd cyllideb Estyn yn deillio o ddwy ffynhonnell (y naill yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ei ddyletswyddau mewn perthynas ag ysgolion, a'r llall gan y Comisiwn). Mae'r Rhan hon yn cynnwys dyletswyddau a phwerau i Estyn mewn perthynas â darpariaeth addysg drydyddol.
- Bydd gan **Weinidogion Cymru** y pŵer i ymyrryd mewn perthynas ag ymddygiad sefydliadau addysg bellach (yn unig), pan fo'n credu, ymhlith materion eraill, fod sefydliad yn cael ei gamreoli. Mae'r pwerau'n cynnwys gallu cael gwared ar rannau o gorff llywodraethu neu gael gwared ar y corff cyfan, penodi corff arall yn ei le, a dechrau'r broses ddisgyblu ar gyfer diswyddo staff y mae gan lywodraethwyr y pŵer i'w diswyddo. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod y pwerau hyn yn cael eu haildeddfu o'r pwerau presennol yn Neddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

Rhan 3

Mae Rhan 3 yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru gyllido'r Comisiwn a chyllido swyddogaethau'r Comisiwn mewn perthynas â sicrhau a chyllido addysg drydyddol ac ymchwil (addysg uwch ac addysg bellach, addysg drydyddol a hyfforddiant, a'r chweched dosbarth).

- Bydd gan **Weinidogion Cymru** bwerau i ddarparu cyllid i'r Comisiwn. **Gall Gweinidogion Cymru** osod telerau ac amodau ynghlwm wrth y cyllid hwn. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi, i ddiogelu ymreolaeth y Comisiwn a darparwyr, ac i ddiogelu rhyddid academiaidd, fod y Bil yn gosod cyfyngiadau penodol ar y telerau ac amodau y gall Gweinidogion Cymru eu gosod ar eu cyllid i'r Comisiwn.
- Gall y **Comisiwn** hefyd osod telerau ac amodau ynghlwm wrth y cyllid ar gyfer addysg uwch, addysg bellach, addysg drydyddol, hyfforddiant a phrentisiaethau. Mae rhwydd hant i'r Comisiwn osod unrhyw amodau y mae'n ystyried eu bod yn briodol, yn amodol ar rai cyfyngiadau a dyletswydd i ymgynghori ag unrhyw bersonau y mae'r Comisiwn yn ystyried eu bod yn briodol.
- Mae gan **Weinidogion Cymru** bwerau i osod mesurau rheoli lefel uchel ar y cyllid y mae'r Comisiwn yn ei ddarparu ar gyfer darpariaeth addysg, a hynny gan y gall wneud rheoliadau i gysylltu cymhwystra am gyllid â statws cofrestru

mewn rhai categorïau yn y gofrestr a grëir yn Rhan 2 o'r Bil.

- Mae gan **Weinidogion Cymru** bwerau i ddarparu cyllid i'r Comisiwn ar gyfer cyrsiau penodol (a bennir drwy reoliadau), er enghraifft er mwyn mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth; ond ni ellir gorfodi'r Comisiwn i wneud unrhyw beth a fyddai'n golygu ei bod 'yn ofynnol i'r Comisiwn fynnu bod cyrsiau o'r fath yn cael eu darparu'.
- Bydd **Gweinidogion Cymru** yn gallu cyllido cyrsiau addysg uwch yn uniongyrchol mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn, ond fel arall ni fydd ganddynt bŵer cyffredinol i gyllido darpariaeth addysg uwch yn uniongyrchol. Fodd bynnag, fe fydd gan **Weinidogion Cymru** bwerau i gyllido darpariaeth addysg bellach yn uniongyrchol, ochr yn ochr â'r Comisiwn.
- Mae'r Bil yn darparu ar gyfer dull o sicrhau addysg bellach sy'n seiliedig ar flaenoriaethau. Rhaid i'r Comisiwn sicrhau cyfleusterau priodol ar gyfer pobl ifanc 16-19 oed, cyfleusterau priodol ar gyfer grwpiau o bobl dros 19 oed a dargedir, a chyfleusterau rhesymol i bawb arall dros 19 oed. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai'r bwriad yw y bydd yr hawliau presennol i bobl ifanc 16-19 oed y darperir ar eu cyfer gan y Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn parhau.
- Mae gan y **Comisiwn** bwerau i gyllido ymchwil ac arloesedd. Mae'r Bil yn darparu bod rhaid i'r Comisiwn roi sylw i 'Egwyddor Haldane' wrth gyllido ymchwil – gofyniad allweddol gan randdeiliaid ynghyd â mesurau diogelwch ar ryddid academaidd ac ymreolaeth sefydliadol. Esbonnir yr egwyddor ymhellach yn Adran 10 o'r papur hwn.
- Gall **Gweinidogion Cymru** ddyroddi cyfarwyddyd cymorth ariannol i'r Comisiwn os yw'n credu bod materion ariannol darparwr yn cael eu camreoli, ac mae'n rhaid i'r Comisiwn gydymffurfio â hyn.

Rhan 4

Mae Rhan 4 yn gwneud darpariaeth ynghylch prentisiaethau.

- Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi ei bod yn nod polisi gwneud y system brentisiaeth yn fwy hyblyg ac yn fwy ymatebol i'r galw gan gyflogwyr. Ymdengys mai'r prif fecanwaith ar gyfer cyflawni hyn yn y Bil yw bod yn rhaid i fanyleb fframweithiau prentisiaeth gyd-fynd â'i gilydd os ydynt i'w cymeradwyo,

ac na fydd angen diwygio offeryn statudol mwyach.

- Rhaid i'r **Comisiwn** gyhoeddi fframweithiau prentisiaethau, a bydd ganddo bwerau i gyflwyno tystysgrifau cwblhau. Gall y Comisiwn ddirprwyo'r swyddogaethau hyn, ac mae'r swyddogaethau eisoes yn cael eu cyflawni gan drydydd parti.
- Bydd yn rhaid cyhoeddi fframweithiau i fod yn gymwys i fod yn rhan o brentisiaeth yng Nghymru, a thrwy hynny ganiatáu i brentisiaid gael eu cyllido i allu ymgymryd â'r brentisiaeth.

Rhan 5

Mae Rhan 5 yn gwneud darpariaeth ynghylch diogelu dysgwyr, gweithdrefnau cwyno ac ymgysylltu â dysgwyr.

- Mae'r Bil yn caniatáu i **Weinidogion Cymru** ehangu'r ystod o ddysgwyr sy'n gallu defnyddio gwasanaethau Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. Mae Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol yn ymdrin â chwynion heb eu datrys gan ddysgwyr addysg uwch. Bydd y Bil yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ganiatáu i ddysgwyr mewn darparwyr addysg drydyddol eraill, megis colegau, allu defnyddio gwasanaethau Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. Mae hyn yn golygu, hyd nes y bydd rheoliadau'n cael eu gwneud, y bydd gwasanaethau Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol yn parhau i fod ar gael i'r sawl sy'n gallu eu defnyddio eisoes yn unig (sef myfyrwyr addysg uwch).
- Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai nod y diwygiadau yw creu system addysg drydyddol sy'n canolbwyntio'n fwy ar y dysgwr. Rhaid i'r Comisiwn baratoi Cod Ymgysylltu â Dysgwyr, a bydd yn rhaid i ddarparwyr gadw ato yn gyffredinol. Bwriad y gofyniad am God yw sicrhau bod dysgwyr yn gallu rhoi eu barn ar yr addysg y maent yn ei chael, a bod eu buddiannau yn cael eu cynrychioli yn eu sefydliadau mewn modd cyson.

Rhan 6

Mae Rhan 6 yn gwneud darpariaeth ynghylch gwybodaeth, cyngor a chanllawiau gan y Comisiwn a Gweinidogion Cymru, ac i'r Comisiwn a Gweinidogion Cymru.

Rhan 7

Mae Rhan 7 yn gwneud darpariaethau amrywiol mewn perthynas â chorfforaethau addysg uwch yng Nghymru a darpariaethau cyffredinol eraill.

- Bydd **Gweinidogion Cymru** yn cadw eu pŵer i ddiddymu corfforaethau addysg uwch (mae pedair o 8 prifysgol Cymru yn gorfforaeth addysg uwch, a 4 wedi'u sefydlu drwy Siarter Frenhinol). I'r perwyl hwn, nid oes ond angen i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r gorfforaeth addysg uwch y mae'n bwriadu ei diddymu. Nid oes unrhyw amodau pellach ynghlwm wrth wneud hynny, heblaw gofyniad cyffredinol i fod wedi gweithredu'n rhesymol. Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi unrhyw resymeg benodol dros gadw'r pŵer eang hwn heblaw'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn ystyried hynny i fod yn 'sefyllfa ddymunol'.

Pwerau

- Mae'r Bil yn cynnwys 47 o bwerau i wneud rheoliadau ac un pŵer i wneud gorchmynion cychwyn, gyda 26 o'r rhain drwy'r weithdrefn negyddol.
- Mae 9 pŵer yn y Bil a roddir i **Weinidogion Cymru** mewn perthynas â dyroddi canllawiau, dyroddi cyfarwyddyd neu greu rhestr (mae'r rhestrau'n ymwneud â rhestr o undebau llafur sy'n berthnasol i gorff llywodraethu'r Comisiwn)
- Mae 17 o bwerau yn y Bil a roddir i'r **Comisiwn** mewn perthynas â dyroddi canllawiau, creu Cod, neu ddyroddi cyfarwyddyd.

Costau a chychwyn

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai cost ychwanegol net yr opsiwn a ffefrir (sef sefydlu'r Comisiwn) yw £45 miliwn dros gyfnod arfarnu o 10 mlynedd gan gychwyn yn 2021-22. Yn ei Memorandwm Esboniadol, mae Llywodraeth Cymru yn nodi y bydd y Comisiwn yn costio oddeutu £5 miliwn y flwyddyn yn rhagor i'w weithredu o'i gymharu â'r trefniadau presennol, a hynny o 2023-24 ymlaen.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r canlynol:

- Nid yw wedi gallu meintioli arbedion cost.

- Nid oes costau anuniongyrchol i gyrff eraill wedi'u meintioli. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn rhestru 10 categori o gyrff a allai arwain at gostau ychwanegol yn sgil y Bil.
- Nid yw'r buddion wedi'u meintioli.

Eir ymlaen i nodi bod ansicrwydd ynghylch y rhagdybiaethau a ddefnyddir, gan olygu y dylid ystyried amrywiant o oddeutu 30% ar y ffigurau a ragwelir. Mae'r tabl isod yn dangos yr effaith yn sgil cynnydd o 30% yn y costau a ragwelir.

Dadansoddiad sensitifrwydd dangosol ar gyfer amrywiant posibl o 30% ar gyfer ffigurau a nodir yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol			
Disgrifiad o'r gost	Blynyddoedd	Cost (£,000)	+ 30% (£,000)
Costau trosiannol	2021-22 i 2023-24	9,949	12,934
Costau staffio Llywodraeth Cymru a chostau cysylltiedig	2021-22 i 2022-23	22,976	29,869
Costau staffio CCAUC a chostau cysylltiedig	2021-22 i 2022-23	7,308	9,500
Costau rheolaidd wrth redeg y Comisiwn	2023-24 i 2030-31	158,221	205,687
Cyfanswm costau	2021-22 i 2030-31	198,454	257,990
Llai: Costau Gwneud Dim	2021-22 i 2030-31	153,420	153,420
Costau ychwanegol net	2021-22 i 2030-31	45,034	104,570

Nid yw'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi i ba ffigurau y mae'r amrywiant o 30% yn berthnasol, felly at ddibenion dangosol cafodd ei gymhwyso yn unffurf ar draws yr holl gostau. Ffynhonnell: y golofn olaf o Gyfrifiadau Ymchwil y Senedd, a'r gweddill o Femorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru

2. Cefndir y Bil

Yn 2015 comisynodd Llywodraeth Cymru yr Athro Ellen Hazelkorn i adolygu'r trefniadau goruchwyllo addysg ôl-orfodol yng Nghymru, gan 'gyfeirio'n benodol' at ddyfodol CCAUC.

Fel rhan o hyn, gofynnwyd i'r Athro Hazelkorn gyngori ar effeithiolrwydd y trefniadau presennol, a gwneud argymhellion ar gyfer trefniadau goruchwyllo addysg ôl-orfodol yn y dyfodol.

Mae cylch gorchwyl llawn ei hadolygiad ar gael **yma**.

Argymhellion yr Athro Hazelkorn

Mae'r Athro Hazelkorn yn sôn am nifer o heriau i'r sector addysg drydyddol yn ei hadroddiad terfynol, **Tuag at 2030**. Roedd yr heriau hyn yn cynnwys yr angen i greu mwy o gydlyniant ar draws y sector addysg ôl-orfodol; a'r angen i ddatblygu llwybrau dysgu a llwybrau gyrfa mwy cydlynol 'ar gyfer pob oedran, rhyw a thalent'.

Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r heriau y mae'r Athro Hazelkorn yn eu nodi yn ei hadroddiad, gwnaeth chwe argymhelliad allweddol. Diben yr argymhellion oedd:

- Datblygu gweledigaeth gyffredinol ar gyfer system addysg ôl-orfodol yng Nghymru.
- Sefydlu un awdurdod newydd fel un awdurdod rheoleiddio, goruchwyllo a chydgyssylltu i'r sector addysg ôl-orfodol.
- Rhoi anghenion dysgwyr wrth wraidd y system addysg, drwy sefydlu llwybrau dysgu a gyrfa hyblyg.
- Dylai ymgysylltu â dinasyddion gael ei ymgorffori fel cenhadaeth greiddiol i'r holl ddarparwyr.
- Creu gwell cydbwysedd rhwng darpariaeth addysg ac ymchwil a arweinir gan y cyflenwad a'r galw.

- Creu'r polisiau, y prosesau a'r arferion priodol i annog syniadaeth hirdymor a chydgyssylltiedig well ynglŷn ag anghenion a gofynion addysgol Cymru.

Ymateb Llywodraeth Cymru a datblygu polisi

Wrth ymateb i adroddiad Tuag at 2030, nododd Llywodraeth Cymru yr hyn a gynigai yw dau 'brif argymhelliad' yr adroddiad:

- Datblygu gweledigaeth gyffredin ar gyfer y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol.
- Sefydlu corff newydd hyd braich sy'n gyfrifol am oruchwylio, cyfeiriad strategol ac arweinyddiaeth y sector.

Dechreuodd Llywodraeth Cymru ymgynghori ar fwrw ymlaen â'r rhain yn 2017, ac yna cynhaliwyd ymgynghoriad technegol yn 2018. Yn 2019, cynhaliodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Bumed Senedd **waith craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015** gyda'r bwriad o lywio datblygiad y Bil, ac mae Llywodraeth Cymru yn honni bod y craffu hwn wedi llywio'r Bil terfynol.

Yn wreiddiol, bwriadwyd cyflwyno'r Bil yn nhymor y gwanwyn 2020, ond yn hytrach cafodd ei gyhoeddi fel **bil drafft i ymgynghori yn ei gylch** yn sgil pwysau'r pandemig.

Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru **yn rhestru 14 o newidiadau** i'r Bil fel y'i cyflwynwyd, o'i gymharu â bil drafft 2020. Ymhlith y newidiadau arwyddocaol mae:

- Disodli dyletswyddau cyffredinol y Comisiwn â 'chyfres' o naw dyletswydd strategol newydd.
- Gwneud newidiadau gyda'r bwriad o sicrhau bod y dyletswyddau ar y Comisiwn a Gweinidogion Cymru ynghylch rhyddid academiaidd yn glir.
- Cael gwared ar unrhyw ddarpariaeth ar gyfer Cynlluniau Mynediad a Chyfleoedd, ac yn lle hynny 'symud i ddull mwy strategol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau'.

Y trefniadau rheoleiddio a chyllido presennol

Caiff y gwaith o reoleiddio, goruchwylio a chyllido'r sector addysg drydyddol ei rannu rhwng gwahanol rannau o Lywodraeth Cymru a CCAUC.

- Mae addysg uwch yn cael ei rheoleiddio, ei goruchwylio a'i chyllido'n rhannol gan CCAUC. Mae CCAUC yn darparu grantiau i sefydliadau ar gyfer darpariaeth addysg uwch ac i gynnal ymchwil ac arloesedd. Mae'r rhan fwyaf o gyllid y sector yn deillio o ffioedd dysgu a delir yn uniongyrchol i sefydliadau, sy'n golygu bod y sector yn cael ei reoleiddio yn bennaf drwy Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, ynghyd â'r telerau ac amodau y mae CCAUC yn eu gosod ynghlwm wrth ei gyllid grant. Mae'r **adroddiad** ar y gwaith craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf 2015 yn darparu mwy o fanylion am y system bresennol a'r materion sy'n codi yn ei sgil. Yr Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd sy'n adolygu ansawdd y ddarpariaeth ledled y DU ar ran CCAUC.
- Caiff darpariaeth addysg bellach ei sicrhau wrth i Lywodraeth Cymru roi grantiau i sefydliadau addysg bellach bob blwyddyn. Mae'r darparwyr yn cael eu rheoleiddio gan Lywodraeth Cymru drwy'r telerau a'r amodau sydd ynghlwm wrth y cyllid grant hwn. Yn sgil y ddeddfwriaeth bresennol, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth i gyllid i sicrhau darpariaeth addysg bellach ar gyfer pobl ifanc 16-19 oed, dros gyllido darpariaeth ar gyfer y rhai dros 19 oed. Estyn sy'n arolygu darpariaeth addysg bellach.
- Caiff darpariaeth prentisiaethau ei sicrhau wrth i Lywodraeth Cymru gynnal ymarfer tendro cystadleuol bob 5 mlynedd. Mae'r rhai sy'n gwneud cynnig llwyddiannus yn derbyn cyllid blynyddol gan Lywodraeth Cymru, a rhaid iddynt gadw at delerau ac amodau'r cyllid hwnnw. Mae'r telerau ac amodau yn cynnwys gofynion manwl ar gyfer parhau â darpariaeth prentisiaethau. Estyn sy'n arolygu darpariaeth prentisiaethau.
- Caiff Dysgu Oedolion yn y Gymuned ei gyllido gan Grant Dysgu yn y Gymuned Llywodraeth Cymru. Unwaith yn rhagor, rhaid i ddarparwyr gadw at delerau ac amodau'r cyllid hwnnw. Estyn sy'n arolygu'r ddarpariaeth hon.
- Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid Chweched Dosbarth i awdurdodau lleol. Estyn sy'n arolygu darpariaeth chweched dosbarth.

Cwmpas posibl y Comisiwn newydd

Cyfanswm yr arian a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer darpariaeth addysg drydyddol yn ei **Chyllideb Derfynol 2021-22** oedd dros £800 miliwn. Mae hyn yn cynnwys £500 miliwn ar gyfer darpariaeth addysg bellach, £203 miliwn ar gyfer darpariaeth addysg uwch, £4.4 miliwn ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned a £113 miliwn ar gyfer dysgu yn y gwaith. Nid yw hyn yn cynnwys cyllid Ewropeaidd, na'r £90 miliwn a ddyrannwyd i'r Chweched Dosbarth ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21.

Gan dybio bod y lefel hon o gyllid yn cael ei chynnal yn fras, byddai'r Comisiwn yn rheoli mwy o gyllid nag unrhyw gorff cyhoeddus arall yng Nghymru, heblaw GIG Cymru. Byddai'r darparwyr sy'n cael eu rheoleiddio a'u cyllido ganddo yn cynnig darpariaeth i dros 300,000 o ddysgwyr a myfyrwyr yn ystod blwyddyn academaidd.

3. Crynodeb o'r Bil

Amcanion polisi'r Bil

O dan Reol Sefydlog 26.6, rhaid i'r Aelod sy'n gyfrifol am Fil hefyd osod Memorandwm Esboniadol sy'n nodi amcanion polisi'r Bil. Mae Memorandwm Esboniadol y Bil yn egluro bod y gofyniad hwn yn cael ei fodloni ym Mhennod 3 o'r memorandwm sy'n ymdrin â diben ac effaith arfaethedig y ddeddfwriaeth.

Fodd bynnag, nid yw'r amcanion polisi y bwriedir i'r Bil helpu eu cyflawni wedi'u nodi'n glir ym Mhennod 3. Fel esboniad, dim ond un cyfeiriad penodol sydd ym Mhennod 3 at 'amcan polisi', a hynny ym mharagraff 3.59 mewn perthynas ag ehangu'r dewis i ddysgwyr astudio trwy gyfrwng Cymraeg.

Mae Pennod 3 yn nodi:

- bod y Bil ei hun yn creu Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru (y Comisiwn) ac mai bwriad y polisi yw i'r Comisiwn allu ymdrin â'r sectorau addysg ôl-16 a oedd gynt ar wahân 'fel un sector'. Ymhellach, mae Llywodraeth Cymru yn datgan mai 'un o'r prif nodau' wrth sefydlu'r Comisiwn yw creu corff sy'n gallu ymdrin â'r gwaith cynllunio strategol a'r cyllid ar draws y sector addysg drydyddol a'r sector ymchwil ac arloesi mewn perthynas â Chymru.
- bod Llywodraeth Cymru wedi drafftio **gweledigaeth ar gyfer y sector addysg drydyddol**, ac yn disgrifio sefydlu'r Comisiwn fel 'agwedd allweddol' ar gyflawni'r weledigaeth honno, ac fel 'cam hollbwysig' tuag at wireddu nodau Llywodraeth Cymru wrth ddiwygio addysg. Nid yw'r weledigaeth yn statudol - nid yw'n cael ei chrybwyll yn y Bil. Mae'r weledigaeth yn disgrifio 5 maes, a dywedir bod pob un wedi'i alinio â nod Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Daeth y weledigaeth yn dilyn cyhoeddi'r Bil drafft – fe'i cyhoeddwyd ar 26 Tachwedd 2020, a chyhoeddwyd y Bil drafft ar 14 Gorffennaf 2020.
- bod y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ddatblygu strategaeth sy'n nodi sut y bydd yn ymateb i flaenoriaethau strategol Gweinidogion Cymru, a sut y bydd yn cyflawni'r gyfres o naw dyletswydd statudol. Er y gallai'r weledigaeth, yn ymarferol, gael ei hadlewyrchu yn y datganiad o flaenoriaethau strategol y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ei wneud o dan y Bil, nid yw'r Bil yn gosod unrhyw ddyletswydd benodol ar Weinidogion Cymru na'r Comisiwn i roi sylw uniongyrchol i'r weledigaeth. Y tu hwnt i Bennod 3, mae Pennod 7 yn nodi

pum nod lefel uchel i'r Comisiwn (sy'n wahanol mewn sawl ystyr i'r nodau yn y weledigaeth) ac 11 nod lefel uchel i'r Comisiwn. Dyma'r nodau lefel uchel:

- System sy'n cryfhau llesiant a sylfeini economaidd Cymru, yn annog menter, yn ymateb i anghenion cyflogwyr ac yn galluogi sylfaen ymchwil berthnasol sy'n tyfu.
 - System sy'n galluogi dysgu, asesu a chynnydd trwy gyfrwng y Gymraeg.
 - System sy'n canolbwyntio ar y dysgwr ac sy'n hyrwyddo dysgu gydol oes ac yn cyflwyno dewis ac arweiniad effeithiol, ynghyd â mynediad teg at gyfleoedd a llwybrau dysgu priodol.
 - System hynod gadarn, integredig, gynaliadwy ac ymatebol sy'n hyrwyddo cydweithredu, rhagoriaeth; ac sy'n rheoleiddio ag ymreolaeth.
 - System a gefnogir gan ddarparwyr cydweithredol ac ymgysylltiol sy'n cyfoethogi'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.
- mai bwriad Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod dysgwyr yn gallu symud yn 'ddi-dor' o addysg orfodol i addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, ac yn greiddiol i hyn bydd system:
- sy'n hawdd i bob dysgwr lywio.
 - sy'n cael ei werthfawrogi gan y cyhoedd.
 - sy'n creu cymdeithas fedrus iawn.
 - sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau.
 - sy'n enwog yn fyd-eang.
 - sydd â chenhadaeth ddinesig wrth ei chalon.

Rhan 1: Fframwaith strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil

Mae Rhan 1 yn sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (y Comisiwn) a'r fframwaith strategol ar gyfer ei weithredu. Bydd y Comisiwn yn arfer swyddogaethau newydd sy'n cael eu creu gan y Bil, swyddogaethau statudol presennol CCAUC a nifer o swyddogaethau presennol Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag addysg bellach a hyfforddiant.

Bydd y Comisiwn yn atebol i Weinidogion Cymru a bydd Gweinidogion Cymru yn gallu dylanwadu ar y Comisiwn – mae'r Bil yn darparu bod yn rhaid i'r Comisiwn ystyried unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru, ac mae'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi cyfarwyddydau cyffredinol i'r

Comisiwn ynghylch arfer ei swyddogaethau; caiff Gweinidogion Cymru hefyd roi swyddogaethau atodol iddo. Mae Gweinidogion Cymru hefyd yn penodi Aelodau'r Comisiwn gan gynnwys y Cadeirydd, a gallant hefyd addasu cynllun strategol y Comisiwn, ar yr un amod yr ymgynghorir ag ef.

Y Comisiwn

- (A1) Yn sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ac yn cyflwyno Atodlen 1. Mae Atodlen 1 yn nodi y bydd aelodau'r Comisiwn yn cynnwys cadeirydd, dirprwy gadeirydd a rhwng 4 a 14 aelod cyffredin, **pob un wedi'i benodi gan Weinidogion Cymru**. Bydd gan y Comisiwn aelodau cyswllt gyda dau berson yn cynrychioli'r gweithlu (**wedi'u penodi gan Weinidogion Cymru**), un person yn cynrychioli staff y Comisiwn (y mae'n rhaid iddo fod yn aelod o undeb llafur cydnabyddedig y Comisiwn, ac a benodir gan bwyllgor statudol y Comisiwn, gweler isod), ac un person yn cynrychioli dysgwyr (**wedi'i benodi gan Weinidogion Cymru**). Bydd yn ofynnol i'r Comisiwn fod â 3 phwyllgor: Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi dan gadeiryddiaeth dirprwy gadeirydd y Comisiwn; Pwyllgor Ansawdd i gynghori ar ansawdd addysg drydyddol; a phwyllgor penodi aelodau staff er mwyn penodi'r aelod staff cyswllt. Bydd y Prif Weithredwr cyntaf yn cael **ei benodi gan Weinidogion Cymru** am hyd at bedair blynedd, gyda'r penodiadau canlynol ar gyfer prif weithredwr yn cael eu pennu gan y Comisiwn ei hun, ond **gyda chymeradwyaeth Gweinidogion Cymru**.

Dyletswyddau strategol y Comisiwn

- (A2-10) Naw dyletswydd strategol y Comisiwn y mae'n rhaid iddo eu cyflawni. Dyma'r dyletswyddau:
 - Hyrwyddo dysgu gydol oes sy'n cynnig amrywiaeth o lefelau, mathau a dulliau astudio.
 - Hybu cyfle cyfartal gan gynnwys cyfranogiad ymhlith grwpiau a dangynrychiolir a lleihau unrhyw fwch cyrhaeddiad sy'n deillio o ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd neu sefydliadol. Mae'r Bil yn diffinio grwpiau a dangynrychiolir at ddibenion y ddyletswydd hon.
 - Annog dysgwyr a chyflogwyr i gymryd rhan mewn addysg drydyddol.
 - Hyrwyddo gwelliant parhaus mewn addysg drydyddol ac ymchwil, gan gynnwys rhoi sylw i bwysigrwydd sicrhau bod y gweithlu addysg drydyddol yn gallu darparu addysg o ansawdd uchel.
 - Hybu cydlafurio a chydlynu mewn addysg drydyddol ac ymchwil.

- Cyfrannu at economi gynaliadwy ac arloesol. Mae'r Bil yn diffinio'r term 'economi gynaliadwy'.
- Hybu addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg. Rhaid i'r Comisiwn annog pobl i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg a chymryd pob cam rhesymol i sicrhau y gall y gweithlu ateb galw rhesymol i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Hybu cenhadaeth ddinesig gan sefydliadau addysg bellach ac uwch. Mae'r adran yn diffinio 'cenhadaeth ddinesig'.
- Hybu golwg fyd-eang gan gynnwys hybu cyfleoedd mewn addysg drydyddol fel y gall pobl sydd fel arfer yn preswyllo yng Nghymru astudio, addysgu neu ymgymryd â gwaith ymchwil mewn rhannau eraill o'r byd.

Strategaeth ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil

- (A11) Rhaid i **Weinidogion Cymru** gyhoeddi datganiad yn nodi eu blaenoriaethau strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil, a gallant ddiwygio'r blaenoriaethau hyn ar unrhyw adeg.
- (A12-14) Y trefniadau ar gyfer cynllun strategol y Comisiwn. Mae'r adrannau hyn yn nodi bod yn rhaid i'r Comisiwn baratoi cynllun strategol sy'n dangos sut y mae'n bwriadu cyflawni ei naw dyletswydd strategol a mynd i'r afael â datganiad blaenoriaethau Gweinidog Cymru a wneir o dan A11. **Caiff Gweinidogion Cymru** gymeradwyo'r cynllun neu **gallant ei gymeradwyo ar ôl iddynt ei addasu eu hunain** (ac os felly rhaid iddynt ymgynghori â'r Comisiwn). Mae A14 yn nodi'r trefniadau i'r Comisiwn adolygu ei gynllun o bryd i'w gilydd.

Rhyddid academaidd

- (A15-16) Darpariaethau ar gyfer rhyddid academaidd i ddarparwyr addysg uwch a rhyddid i lefaru i staff mewn darparwyr addysg uwch. Mae'r adrannau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i **Weinidogion Cymru a'r Comisiwn** roi sylw i ryddid academaidd a rhyddid i lefaru. Mae'r adrannau'n ymwneud ag addysg uwch yn unig (gan gofio y gall sefydliadau addysg bellach a chyrff eraill heblaw prifysgolion ddarparu addysg uwch). Mae'r adrannau'n diffinio rhyddid academaidd a rhyddid i lefaru. Mae 'mesurau diogelwch' ychwanegol ar gyfer rhyddid sefydliadol a rhyddid academaidd yn narpariaethau eraill y Bil.

Cydnawsedd â chyfraith elusennau

- (A17) Cydnawsedd â chyfraith elusennau a dogfennau llywodraethu. Ar hyn o bryd, mae holl brifysgolion Cymru a phob sefydliad addysg bellach yng Nghymru yn elusennau cofrestredig. Mae'r ddarpariaeth hon yn atal y Comisiwn rhag ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu darparwyr sy'n elusennau weithredu mewn modd sy'n torri eu rhwymedigaethau fel Ymddiriedolwyr elusennau. Mae hefyd yn atal y Comisiwn rhag ei gwneud yn ofynnol i lywodraethwyr wneud unrhyw beth sy'n anghydawns â'u dogfennau llywodraethu (e.e. eu Siarter Frenhinol).

Canllawiau a chyfarwyddydau Gweinidog Cymru

- (A18-19) Canllawiau a phŵer Gweinidogion Cymru i ddyroddi cyfarwyddydau cyffredinol. Rhaid i'r Comisiwn roi sylw i ganllawiau gan Weinidogion Cymru, ond hefyd **caiff Gweinidogion Cymru** ddyroddi cyfarwyddydau cyffredinol i'r Comisiwn ynghylch arfer unrhyw rai o'i swyddogaethau, y mae'n rhaid iddo gydymffurfio â nhw. Mae'r adran hon yn cynnwys amryw gyfyngiadau a mesurau diogelwch y bwriedir iddynt ddiogelu ymreolaeth sefydliadau a'r Comisiwn.

Swyddogaethau ychwanegol y Comisiwn

- (A20) Yn **caniatáu i Weinidogion Cymru**, drwy reoliadau, roi swyddogaethau atodol i'r Comisiwn.

Diddymu CCAUC

- (A21-22) Yn diddymu CCAUC ac yn cyflwyno Atodlen 2. Mae Atodlen 2 yn gwneud darpariaeth ynghylch cynlluniau ar gyfer trosglwyddo staff ac eiddo, hawliau a rhwymedigaethau o CCAUC a Gweinidogion Cymru i'r Comisiwn.

Rhan 2: Cofrestru a rheoleiddio darparwyr addysg drydyddol

Yn fras, mae'r Bil yn darparu ar gyfer rheoleiddio ac ysgogiadau polisi drwy ddau ddull:

- telerau ac amodau sydd ynghlwm wrth gyllid gan y Comisiwn
- creu cofrestr o ddarparwyr a allai ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr cofrestredig fodloni amodau cymwys ar gyfer y categori y maent wedi'u cofrestru oddi tano, ac unrhyw amodau penodol y mae'r Comisiwn yn

ystyried eu bod yn briodol i ddarparwr unigol.

Mae Rhan 2 yn ymwneud â chreu'r gofrestr hon a'r mecanweithiau rheoleiddio cysylltiedig i roi effaith i'r gofrestr. Nid yw pob categori neu amod wrth gofrestru ar wyneb y Bil, a gall y Comisiwn neu Weinidogion Cymru ychwanegu at y rhain, eu dileu neu eu diwygio mewn amgylchiadau penodol.

Cofrestrir trwy gais gan y darparwr – mae'n wirfoddol felly, a gall darparwyr ddewis aros y tu allan i'r system reoleiddio a sefydlir gan y Bil (ond mae'n bosibl bod gan y Comisiwn bwerau mewn perthynas ag arolygu a sicrhau ansawdd ar gyfer darparwyr nad ydynt wedi'u cofrestru yng Nghymru). Fodd bynnag, mae bod yn rhan o'r system reoleiddio yn debygol o arwain at fuddion a mynediad at gyllid, gan roi cymhelliant i sefydliadau wneud cais.

Drwy beidio â chael ei gofrestru gallai hyn olygu nad yw'r darparwr yn gallu cael gafael ar rywfaent o gyllid y Comisiwn, neu ddim cyllid o gwbl, neu fod myfyrwyr y darparwr yn methu â chael gafael ar yr ystod lawn o gymorth ariannol i fyfyrwyr (mae mynediad at gymorth ariannol myfyrwyr yn cael ei bennu gan reoliadau a wneir o dan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998).

Pennod 1 - Cofrestru darparwyr addysg drydyddol

Y gofrestr a'r weithdrefn gofrestru

- (A23-24) Y gofrestr a'r weithdrefn ar gyfer cofrestru. **Rhaid i'r Comisiwn** gynnal cofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol. Y gofrestr yw'r prif fodd y darperir ar ei gyfer yn y Bil ar gyfer rheoleiddio darparwyr addysg drydyddol sy'n dymuno cael eu cofrestru. Bydd gwahanol gategorïau cofrestru. Nid yw'r categorïau hyn wedi'u nodi ar wyneb y Bil, ond byddant yn cael **eu pennu gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau**. Mae'r categorïau'n berthnasol gan y gall gwahanol amodau fod ynghlwm wrth wahanol gategorïau, a dyna fydd yr achos ar brydiau, ac mae'n bosibl y bydd gwahanol lefelau mynediad at gyllid y Comisiwn. Rhaid i'r Comisiwn gynnwys darparwr ar y gofrestr yn y categori y mae'r darparwr yn gofyn amdano os yw'n bodloni'r meini prawf a nodir yn A23(4).

Amodau cofrestru

- (A25) Amodau cofrestru cychwynnol. I gael ei gofrestru, rhaid i ddarparwr fodloni amodau cofrestru cychwynnol. Mae'r rhain yn ymwneud ag (i) ansawdd addysg, (ii) trefniadau llywodraethu a rheolaeth, a (iii) cynaliadwyedd ariannol y darparwr. **Caiff Gweinidogion Cymru** greu mwy o amodau cofrestru cychwyn-

nol drwy reoliadau. Mae'r amodau hyn yn cyd-fynd â'r gofynion presennol ar sefydliadau a reoleiddir yn y sector addysg uwch o ran derbyn cyllid cyhoeddus.

- (A26) Amodau cofrestru parhaus cyffredinol. **Rhaid i'r Comisiwn** bennu a chyhoeddi amodau cofrestru parhaus cyffredinol y mae'n rhaid i ddarparwyr eu bodloni os ydynt am gadw eu cofrestriad. Gall y **Comisiwn** greu gwahanol amodau ar gyfer gwahanol gategorïau ac ar gyfer disgrifiadau gwahanol o ddarparwyr o fewn categorïau, a phenderfynu datgymhwyso rhai darparwyr penodol neu'r holl ddarparwyr.
- (A27-28) Amodau cofrestru parhaus penodol. **Gall y Comisiwn** osod amodau parhaus ar ddarparwr unigol penodol yn y gofrestr, ac amrywio neu ddileu yr amodau hynny. Gallai'r Comisiwn arfer y pŵer hwn os oes materion penodol y mae'n ofynnol i ddarparwr fynd i'r afael â hwy. **Rhaid i'r Comisiwn** sicrhau bod gofynion ac amodau cofrestru yn gymesur â'i asesiad o unrhyw risgiau a berir. Nid yw'r term 'cymesur' wedi'i ddiffinio ar wyneb y Bil at y diben hwn.
- (A29) Amodau parhaus mandadol. Ar ôl cofrestru, rhaid i'r Comisiwn sicrhau bod rhai amodau cofrestru parhaus ar waith. Mae'r amodau hyn yn gymwys i bob darparwr ym mhob categori, ac ni ellir eu datgymhwyso. Mae'r wyth amod wedi'u nodi ar wyneb y Bil ac maent yn cynnwys amodau sy'n ymwneud ag ansawdd addysg, cynaliadwyedd ariannol ac amodau sy'n ymwneud â gofynion i gyrff llywodraethu hysbysu'r Comisiwn am ddigwyddiadau penodol.
- (A30) Amod parhaus mandadol ar y terfynau ffioedd. Pan fydd darparwr wedi'i gofrestru o dan 'gategori terfyn ffioedd', ac os yw'n darparu cyrsiau cymwys, rhaid i'r Comisiwn sicrhau bod yr amodau cofrestru parhaus yn cynnwys amod terfyn ffioedd. Mae'r categori terfyn ffioedd **i'w bennu gan Lywodraeth Cymru mewn rheoliadau**, fel ag y mae cwrs cymhwysol – nid yw'r naill na'r llall ar wyneb y Bil. Mae amod terfyn ffioedd yn gosod gofyniad ar ddarparwr cofrestredig y mae'n gymwys iddo i gael datganiad terfyn ffioedd, a sicrhau nad yw'r ffioedd ar gyfer cyrsiau rheoleiddiedig yn uwch na'r terfyn ffioedd. Gosodir y terfyn ffioedd **gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau** (gweler A41). Yn ymarferol, bydd yn golygu na fydd sefydliadau y mae'n rhaid eu cofrestru o dan y categori terfyn ffioedd yn gallu codi ffioedd dysgu sy'n uwch na'r uchafswm a bennir mewn rheoliadau (£9,000 yng Nghymru ar hyn o bryd).
- (A31) Amodau parhaus mandadol ar gyfle cyfartal. Yn debyg i A30 uchod, **caiff Gweinidogion Cymru nodi categorïau cofrestru** y mae'n rhaid i amod par-

haus mandadol ar gyfle cyfartal fod yn gymwys iddynt. Mae hyn yn golygu y bydd yn ofynnol i'r Comisiwn sicrhau bod amodau cofrestru parhaus unrhyw ddarparwr sydd wedi'i gofrestru o dan gategorïau o'r fath yn cynnwys amodau sy'n gosod gofyniad i gyflawni canlyniadau mesuradwy yn erbyn sawl nod fel y'u nodir ar wyneb y Bil. Dyma'r nodau: cynyddu cyfranogiad mewn addysg drydyddol gan grwpiau a dangynrychiolir, cadw dysgwyr o'r un grŵp, lleihau bylchau cyrhaeddiad, a chefnogi dysgwyr a dangynrychiolir sy'n gorffen eu cyrsiau.

- (A32-33) Amodau cofrestru parhaus mandadol pellach a chanllawiau'r Comisiwn. **Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau**, bennu amodau cofrestru parhaus mandadol newydd. Rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi canllawiau i ddarparwr ynghylch amodau cofrestru parhaus (cyffredinol, mandadol a phenodol).

Monitro a gorfodi amodau cofrestru

- (A34-36) **Rhaid i'r Comisiwn** fonitro cydymffurfedd ag amodau cofrestru; caiff gynnig cyngor ac arweiniad ynghylch cydymffurfio; a chaiff gynnal adolygiadau o unrhyw faterion y mae'n eu hystyried yn berthnasol i gydymffurfedd ag amodau cofrestru parhaus. Gall adolygiadau gael eu cynnal gan 'berson' arall megis Estyn.
- (A37-38) Cyfarwyddydau a methiant i gydymffurfio ag amodau cofrestru parhaus. Ochr yn ochr ag A35 (canllawiau) ac A36 (adolygiadau), mae A37 yn gam uwchgyfeiriol arall i'r Comisiwn ei ddefnyddio i sicrhau cydymffurfedd ag amodau cofrestru parhaus. **Caiff y Comisiwn ddyroddi** cyfarwyddyd i gorff llywodraethu (yn ddarostyngedig i'r weithdrefn a nodir yn A73-76 sy'n ei gwneud yn ofynnol cyflwyno hysbysiad rhybuddio yn gyntaf) gydymffurfio ag amod os yw'n fodlon y bydd y darparwr yn methu â chydymffurfio neu wedi methu â chydymffurfio. Mae A38 yn ymwneud â chanllawiau y caiff y Comisiwn eu cyhoeddi mewn perthynas â chydymffurfio â chyfarwyddyd.

Datgofrestru

- (A39-40) Datgofrestru. Mae'r adran hon yn nodi pryd y mae'n **rhaid i'r Comisiwn** ddatgofrestru darparwr, a phryd y **caiff** ddatgofrestru darparwr. **Rhaid i'r Comisiwn** ddatgofrestru darparwr mewn rhai amgylchiadau, a **gall Gweinidogion Cymru** ychwanegu amgylchiadau ychwanegol drwy reoliadau. Fel arall, caiff y Comisiwn ddatgofrestru darparwr mewn dwy set o amgylchiadau fel

rhan o'r camau uwch-gyfeirio terfynol sydd hefyd yn cynnwys canllawiau, adolygiadau a chyfarwyddydau (A35, A36 ac A37 - gweler uchod). Caiff y Comisiwn ddatgofrestru darparwr os yw eisoes wedi arfer ei bwerau o dan A37 ac y bu tor-amodau pellach neu ychwanegol, neu os yw'r tor-amodau mor ddifrifol nad yw pwerau'r Comisiwn o dan A37 yn ddigonol i ddelio ag ef. Mae A40 yn nodi'r weithdrefn ddatgofrestru sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn hysbysu corff llywodraethu sefydliad o'i fwriad i ddatgofrestru, a rhoi o leiaf 28 diwrnod iddo wneud sylwadau. Os bydd y Comisiwn yn mynd yn ei flaen, nid yw datgofrestru fel arfer ond yn digwydd ar ôl cyfnod o amser pan all sefydliadau wneud cais am adolygiad o dan A43.

- (A41-42) Datgofrestru'n wirfoddol a datgofrestru gyda chydysyniad a newid categori. **Rhaid i'r Comisiwn** ddileu darparwr o gategori yn y gofrestr, neu'r gofrestr ei hun os yw cais y darparwr i'r perwyl hwnnw yn bodloni'r gofynion a nodir ar wyneb y Bil. Mae A42 yn caniatáu i'r Comisiwn gofrestru darparwr sydd wedi'i ddileu o gategori mewn categori arall os yw'r corff llywodraethu yn cydsynio ac os yw amodau eraill yn cael eu bodloni.

Adolygiadau o benderfyniadau cofrestru

- (A43) Adolygiadau o benderfyniadau cofrestru. Caiff darparwyr ofyn am adolygiad o benderfyniadau arwyddocaol sy'n ymwneud â'u cofrestriad. Bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal gan berson neu banel a benodir gan Lywodraeth Cymru o dan A77 o'r Bil. Caiff darparwr ofyn am adolygiad o benderfyniad pan fydd y Comisiwn:
 - Wedi gwrthod cofrestriad mewn categori o'r gofrestr o dan A23 (y gofrestr).
 - Wedi gosod neu amrywio amod cofrestru penodol o dan A27 (amodau cofrestru penodol parhaus).
 - Wedi datgofrestru darparwr o gategori neu'r gofrestr o dan A39 (datgofrestru).
 - Wedi gosod dyddiad i ddileu darparwr o gategori o dan A40(6) (dyddiad dileu o'r gofrestr ar ofyn y Comisiwn) neu A41(7) neu 41(8) (dyddiad dileu yn wirfoddol o'r gofrestr).

Datganiadau terfyn ffioedd

- (S44-46) Datganiadau terfyn ffioedd a'u cymeradwyo. Mae A30 yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr sydd wedi'u cofrestru mewn categori terfyn ffioedd

gael datganiad terfyn ffioedd wedi'i gymeradwyo. Mae hyn yn golygu na fyddai darparwyr sydd â datganiad terfyn ffioedd wedi'i gymeradwyo yn gallu codi mwy na'r 'uchafswm' am gyrsiau cymhwysol (£ 9,000 y flwyddyn ar hyn o bryd am gyrsiau rheoleiddiedig). Yn Lloegr, mae'r fframwaith rheoleiddio yn caniatáu mynediad ychwanegol i ddarparwyr at arian cyhoeddus os ydynt wedi'u cofrestru mewn categori terfyn ffioedd. Mae'r drefn bresennol ar gyfer rheoleiddio addysg uwch o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 hefyd yn darparu ar gyfer mwy o fynediad at arian cyhoeddus yn gyfnewid am gyfyngu ar lefelau ffioedd i beidio â bod uwchlaw uchafswm. Fel yw'r achos yn awr, mae'r Bil yn eithrio myfyrwyr rhyngwladol yn benodol o'r terfyn ffioedd, a gellir codi ffioedd uwch arnynt hwy o hyd.

- (A47) Dilysrwydd contractau. Os oes disgwyl i fyfyrwr dalu ffioedd uwchlaw'r terfyn ffioedd cymwys, yna nid yn unig ni fydd modd i'r darparwr adennill y ffi uwchlaw'r terfyn, ond bydd yn dal i fod yn rhwym wrth weddill y contract, gan gynnwys ei ddyletswydd i ddarparu addysg i'r myfyrwr. Byddai'r ddarpariaeth hon yn dal achosion bwriadol ac anfwriadol (er enghraifft, os oes gan ddarparwr nifer o derfynau ffioedd ar gyfer gwahanol gyrsiau ac y codir ffi uwch wrth gamgymeriad oherwydd gwall gweinyddol).

Pennod 2 - Sicrwydd ansawdd a gwella ansawdd

Swyddogaethau sicrhau ansawdd cyffredinol

- (A48) Fframweithiau sicrhau ansawdd. **Caiff y Comisiwn** gyhoeddi fframwaith sicrhau ansawdd, neu fwy nag un fframwaith. Bwriedir i fframwaith o'r fath fod yn ddogfen bolisi lefel uchel sy'n ymwneud â materion allweddol fel y meini prawf ar gyfer asesu ansawdd, rolau a chyfrifoldebau addysg drydyddol, a'r prosesau i'r perwyl hwnnw. Rhaid i'r Comisiwn ymgynghori ag Estyn. Ar ôl i'r fframwaith gael ei gyhoeddi mae'n rhaid i'r Comisiwn, Estyn a'r corff y mae'r Comisiwn yn ei ddynodi i ymgymryd â'r gwaith sicrwydd ansawdd addysg uwch (gweler A54) roi sylw i'r fframwaith hwnnw. Mae hyn yn golygu, yn wahanol i CCAUC, y bydd gan y Comisiwn asiantaeth dros weithgareddau Estyn (mewn perthynas ag addysg drydyddol).
- (A49-51) Mae'r adrannau hyn yn darparu mecanwaith ymyrryd uwchgyfeiriol tebyg i'r mecanwaith o dan A34-36, ond y tro hwn mewn perthynas ag ansawdd addysg. **Rhaid i'r Comisiwn** fonitro a hyrwyddo gwelliant yn ansawdd addysg drydyddol. Caiff hefyd roi cyngor a chanllawiau i wella ansawdd neu atal ansawdd rhag dod yn annigonol. Caiff hefyd gynnal adolygiadau sy'n berthna-

sol i ansawdd addysg drydyddol neu gwrs penodol o addysg drydyddol. Mae ganddo bwerau i wneud hyn ar gyfer unrhyw addysg drydyddol a ddarperir yng Nghymru, hyd yn oed os nad yw'r addysg drydyddol yn cael ei darparu gan ddarparwr cofrestredig neu os yw wedi'i chyllido / sicrhau gan y Comisiwn.

Asesu ansawdd mewn addysg uwch.

- (A52-53) Asesu ansawdd **addysg uwch Rhaid i'r Comisiwn** ei hun asesu neu wneud trefniadau ar gyfer asesu ansawdd addysg uwch a ddarperir gan bob darparwr cofrestredig ac a ddarperir ar ran darparwr cofrestredig (er enghraifft, os oes gan brifysgol gytundeb breinio â darparwr arall i ddarparu cyrsiau ar ei rhan). **Caiff y Comisiwn** hefyd gynnal asesiadau o'r fath neu wneud trefniadau i'r perwyl hwnnw ar gyfer asesu ansawdd addysg uwch a ddarperir yng Nghymru gan unrhyw ddarparwr addysg drydyddol. Ymddengys fod y pŵer hwn yn ymestyn y tu hwnt i ddarparwyr rheoleiddiedig ac yn cynnwys unrhyw addysg uwch a ddarperir gan ddarparwyr addysg drydyddol yng Nghymru – gan roi pwerau ehangach i'r Comisiwn nag y mae CCAUC yn meddu arnynt ar hyn o bryd mewn perthynas â sicrwydd ansawdd addysg uwch o dan Ddeddf 2015. **Rhaid i'r Comisiwn** gyhoeddi adroddiadau ar bob asesiad, **a chaiff Gweinidogion Cymru** wneud rheoliadau i nodi cyfnodau asesu ac amseriad cyhoeddi'r adroddiad. Ar ôl i adolygiad gael ei gwblhau, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr cofrestredig ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer ymateb i'r adolygiad. Yna, gall y Comisiwn roi cyfarwyddydau (A37) mewn perthynas â chynllun gweithredu o'r fath a defnyddio ei bwerau datgofrestru o dan A39.
- (A54) Dynodi corff i gynnal yr asesiad o ansawdd addysg uwch. Mae'r adran hon yn cyflwyno Atodlen 3 ynglŷn â'r materion sy'n ymwneud â dynodi corff i gynnal asesiad ansawdd ar ran y Comisiwn. Mae gan y Comisiwn y pŵer i asesu ansawdd ei hun, ond yn ymarferol efallai y bydd yn dynodi corff allanol i wneud hyn. Mae hyn yn debyg i bwerau presennol CCAUC sydd wedi dynodi'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd i gynnal asesiadau ar ei ran. Mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn asesu ansawdd addysg uwch yn holl genhedloedd y DU. Er bod Atodlen 3 yn nodi y gall y Comisiwn ddynodi unrhyw un sy'n bodloni'r meini prawf a nodir ar wyneb Atodlen 3, yn ymarferol dim ond yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd sydd, ar hyn o bryd, yn debygol o fod yn dderbyniol i randdeiliaid ac sy'n bodloni gofynion Atodlen 3 gan gynnwys bod y corff yn gallu 'ennyn hyder cyffredinol' gan ystod eang o ddarparwyr Addysg Uwch cofrestredig.

Arolygu addysg bellach neu hyfforddiant etc.

- (A55) Dyletswydd Estyn i arolygu ac adrodd. Er bod y Bil yn darparu i'r Comisiwn neu gorff dynodedig asesu ansawdd addysg uwch, **rhaid i Estyn** arolygu ac adrodd ar y mathau eraill o addysg drydyddol fel addysg bellach, chweched dosbarth, a phrentisiaethau. Mae'r adran hefyd yn nodi y caiff **Gweinidogion Cymru** wneud rheoliadau sy'n nodi amllder arolygiadau ac amseriad adroddiadau.
- (A56) Mae hyn yn rhoi pwerau i Estyn arolygu ystod ehangach o addysg drydyddol na'r hyn a nodir yn A55 os yw'r darparwr yn gofyn iddo gynnal arolygiad.
- (A57-59) Dyletswydd i ddarparu gwybodaeth a chynghor i'r Comisiwn a Gweinidogion Cymru. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Estyn i hysbysu'r Comisiwn a Gweinidogion Cymru am faterion fel y'u nodir yn yr is-adrannau, ac i ymateb i geisiadau gan y Comisiwn a Gweinidogion Cymru ar amrywiol faterion fel y'u nodir yn yr is-adrannau. Mae A59 yn **caniatáu i Weinidogion Cymru** roi swyddogaethau eraill i Estyn drwy reoliadau.
- (A60) Cynlluniau gweithredu yn dilyn arolygiadau. Yn debyg i A53 ar gyfer addysg uwch, rhaid i ddarparwyr ymateb i arolygiad drwy gyhoeddi cynllun gweithredu. Fel yw'r achos o dan A53, mae gan y Comisiwn bwerau i gyhoeddi cyfarwyddydau neu ddatgofrestru darparwyr mewn perthynas â'r gofyniad hwn.
- (S61) Arolygiadau ardal. **Rhaid i Estyn** gynnal arolygiadau ardal os yw'r Comisiwn yn gofyn iddo wneud hynny. Mae'r adran hon yn nodi cwmpas arolygiadau ardal, a'r gofynion ynghlwm wrthynt.
- (A62) Hawliau mynediad i Estyn. Mae'r adran hon yn rhoi pwerau mynediad a phwerau arolygu i Estyn. Mae is-adran (5) yn darparu iddi barhau i fod yn drosedd i rwystro Estyn yn fwriadol.
- (A63) **Caiff y Comisiwn** gyfarwyddo Estyn i gynnal arolygon ac astudiaethau, neu caiff Estyn wneud hynny ei hun.
- (A64) Adroddiad blynyddol. **Rhaid i Estyn** gyhoeddi adroddiad blynyddol o dan Ddeddf Addysg 2005. Mae'r adran hon yn nodi bod yn rhaid i'r adroddiad hwn

bellach gynnwys manylion ei waith o dan y Bennod hon o'r Bil.

- (A65) Cynllun blynyddol Estyn. **Rhaid i Estyn** lunio cynllun ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n nodi'r cyllid a'r gwariant y mae'n credu sy'n angenrheidiol iddo gyflawni ei ddyletswyddau ar draws ei holl gylch gwaith arolygu. Rhaid i'r cynllun hwn hefyd gynnwys gwybodaeth ynghylch sut y bydd Estyn yn rheoli'r cyllid y mae'r Comisiwn yn ei roi iddo o dan A66 i gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Bil hwn mewn perthynas ag addysg drydyddol (yn ogystal â'i gyllid 'arferol' y mae'n ei gael gan Weinidogion Cymru ar hyn o bryd).
- (A66) Cyllido arolygiadau. Bydd y ffynonellau cyllid ar gyfer Estyn yn cael eu gwahanu o dan y Bil hwn. **Rhaid i'r Comisiwn** ddarparu unrhyw gyllid i Estyn y mae'r Comisiwn yn ystyried ei fod yn briodol i Estyn allu cyflawni ei waith mewn perthynas â'r addysg drydyddol a gyllidir neu a sicheir gan y Comisiwn. Ni fydd Gweinidogion Cymru bellach yn gyfrifol am ddarparu cyllid ar gyfer gwaith Estyn sy'n ymwneud â chyflawni ei ddyletswyddau o dan y Bennod hon (ond byddant yn dal i ddarparu'r cyllid ar gyfer ei ddyletswyddau mewn perthynas ag arolygiadau ysgolion). **Rhaid i'r Comisiwn** ymgynghori ag Estyn ynghylch ei ddyraniad cyllid a rhaid iddo gymeradwyo'r rhannau o'r cynllun blynyddol o dan A65 sy'n ymwneud â'i ddyletswyddau o dan y Bennod hon. **Gall y Comisiwn** ei gwneud yn ofynnol i Estyn ddiwygio ei gynllun er mwyn derbyn cyllid o dan yr adran hon.

Pennod 3 - Darpariaethau gorfodi a gweithdrefnol pellach

Ymyrryd yn ymddygiad sefydliadau addysg bellach

- (A67-70) Seiliau dros ymyrryd. Mae'r Bil yn **rhoi pŵer i Weinidogion Cymru** (nid y Comisiwn) ymyrryd (A68) mewn **sefydliadau addysg bellach** pan fodlonir rhai seiliau dros ymyrryd fel y'u nodir yn A67. Yn flaenorol, roedd y pwerau hyn wedi'u cynnwys yn Neddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Mae A69 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn hysbysu Gweinidogion Cymru os yw'n credu bod y seiliau dros ymyrryd yn gymwys. Rhaid i **Weinidogion Cymru** gyhoeddi datganiad yn nodi sut y maent yn bwriadu arfer y pwerau hyn. Mae'r pwerau i ymyrryd yn A68 yn arwyddocaol gan eu bod yn **galluogi Gweinidogion Cymru** (ar ôl ymgynghori â'r Comisiwn):
 - I ddiswyddo pob un neu unrhyw un neu ragor o aelodau corff llywodraethu'r darparwr addysg bellach (ni all Gweinidogion Cymru gyfarwyddo corff llywodraethu i ddiswyddo staff, ond gallant gyfarwyddo

corff llywodraethu i gynnal y broses ddisgyblu i'w diswyddo)

- I benodi aelodau newydd o'r corff hwnnw os oes swyddi gwag (gan gynnwys swyddi gwag a grëir o arfer y pŵer uchod)
- I gyfarwyddo'r corff llywodraethu i gymryd camau neu beidio â chymryd camau i ddelio â seiliau Gweinidogion Cymru dros ymyrryd.

Mynediad i wybodaeth a chyfleusterau

- (A71-72) Dyletswydd i gydweithredu a phwerau mynd i mewn ac arolygu. Mae'r adrannau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i rai darparwyr (fel y'u nodir ar wyneb y Bil) gydweithredu â'r Comisiwn o ran ei ddyletswyddau sy'n ymwneud â monitro a gwella ansawdd (A49, A51 ac A52). Mae A72 yn rhoi pwerau i'r Comisiwn awdurdodi person yn ysgrifenedig i fynd i mewn ac arolygu rhai darparwyr (fel y'u nodir ar wyneb y Bil) mewn perthynas â monitro ac adolygu cydymffurfedd ag amodau cofrestru (A34 ac A36) neu mewn perthynas â monitro ansawdd (A49, A51, A52).

Y weithdrefn rhybuddio ac adolygu

- (A73-75) Rhybuddion a hysbysiadau. **Caiff y Comisiwn** roi cyfarwyddydau mewn perthynas ag amodau cofrestru (A37) a'r ddyletswydd i gydweithredu â'r Comisiwn a darparu gwybodaeth ac ati (A71); a chaiff hefyd gyhoeddi hysbysiadau mewn perthynas â gwrthod terfynau ffioedd neu ddiwygiadau ohonynt (A45). **Rhaid i'r Comisiwn** roi hysbysiad rhybuddio a rhoi amser i'r corff llywodraethu gyflwyno sylwadau cyn cyhoeddi cyfarwyddydau a hysbysiadau. Mae A73-75 yn nodi'r broses ar gyfer dyroddi'r cyfarwyddydau a'r hysbysiadau hyn (A75), a'r broses ar gyfer rhoi'r hysbysiadau rhybuddio (A74).
- (S76-77) Adolygiad. Os yw corff llywodraethu yn cael hysbysiad neu gyfarwyddyd am reswm a restrir yn A73, neu os gwrthodir ei gofrestru neu os bydd y Comisiwn yn newid ei gategori neu amodau cofrestru o dan A43, yna gall wneud cais am adolygiad gan y bydd y penderfyniadau hyn yn cael effaith sylfaenol ar ddarparwyr. Mae A77 yn nodi bod **rhaid i Weinidogion Cymru** benodi unigolyn neu banel i gynnal yr adolygiad, a chaiff wneud rheoliadau ynghylch adolygiadau. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y bydd cyrff llywodraethu yn gallu gofyn am adolygiad yn ymwneud â:
 - Chyfarwyddydau mewn perthynas â methiant i gydymffurfio ag amodau cofrestru parhaus (A37).

- Hysbysiad y gwrthodir datganiad terfyn ffioedd neu y gwrthodir amrywiad o ddatganiad o'r fath (A45)
- Cyfarwyddydau mewn perthynas â methiant i gydweithredu â'r Comisiwn i ddarparu gwybodaeth ac ati (A71).
- Penderfyniadau yn ymwneud â gwrthod cofrestru darparwr mewn categori o'r gofrestr (A23); gosod neu amrywio amodau cofrestru parhaus penodol (A27); dileu darparwr o gategori o'r gofrestr (A39); y dyddiad pan ddaw penderfyniadau i ddileu darparwr o gategori i rym (A40 a 41).

Dyletswyddau amrywiol

- (A78) Cynaliadwyedd ariannol. **Rhaid i'r Comisiwn** fonitro cynaliadwyedd ariannol darparwyr cofrestredig a rhai darparwyr addysg drydyddol fel y'u nodir ar wyneb y Bil, gan gynnwys y rhai a ariennir o dan A94. **Rhaid i'r Comisiwn** anfon adroddiad i Weinidogion Cymru bob blwyddyn ar ragolwg ariannol y darparwyr hynny sy'n cynnwys patrymau, tueddiadau a materion eraill y mae wedi'u nodi. Nid yw'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r adroddiad gael ei gyhoeddi.
- (A79) **Rhaid i'r Comisiwn** gyhoeddi datganiad yn nodi sut y bydd yn defnyddio ei bwerau ymyrryd (yn debyg i'r ddyletswydd a osodir gan A70 ar Weinidogion Cymru i wneud yr un peth mewn perthynas â'u pwerau hwy). Mae'r Bil yn difinio pwerau ymyrryd y Comisiwn (y ddwy set o gamau uwchgyfeiriol sy'n ymwneud â chofrestru ac ansawdd addysg fel yr esbonnir uchod):
 - (A34) dyletswydd i **fonitro** cydymffurfedd ag amodau cofrestru parhaus
 - (A35) **cyngor a chynhorthwy** mewn perthynas â'r uchod
 - (A36) **adolygiadau** o gydymffurfedd ag amodau
 - (A37) **cyfarwyddydau** mewn perthynas â methiant i gydymffurfio ag amodau cofrestru parhaus (yn gymwys yn achos cynlluniau gweithredu yn dilyn arolygiadau ac adolygiadau sicrwydd ansawdd) – yn ddarostyngedig i'r weithdrefn adolygu
 - (A39) **datgofrestru** – yn ddarostyngedig i'r weithdrefn adolygu
 - (A49) **monitro** ansawdd
 - (A50) **cyngor a chynhorthwy** mewn perthynas â'r uchod
 - (A51) **adolygiad** yn ymwneud ag ansawdd addysg drydyddol
 - (A71) **cyfarwyddydau** mewn perthynas â methiant i gydymffurfio â dyletswydd i gydweithredu. Yn ddarostyngedig i'r weithdrefn adolygu.

Cyfarwyddydau

- (A80) Gorfodi cyfarwyddydau. Os yw Gweinidogion Cymru neu'r Comisiwn yn rhoi cyfarwyddyd i gorff llywodraethu o dan Ran 2 o'r Bil, rhaid i'r corff llywodraethu gydymffurfio â'r cyfarwyddyd hwnnw. Gellir gorfodi'r cyfarwyddyd drwy waharddeb.

Pennod 4 - Cyffredinol

- (A81) Gall Gweinidogion Cymru ddynodi bod darparwr addysg drydyddol yn cael ei drin fel 'sefydliad' (sefydliad fel y'i diffinnir gan A139).
- (A82) Mae'r adran hon yn rhoi diffiniadau o dermau penodol a ddefnyddir yn Rhan 2.

Rhan 3: Sicrhau addysg drydyddol ac ymchwil a'u cyllido

Mae'r Rhan hon yn nodi'r trefniadau cyllido ar gyfer sicrhau addysg drydyddol, hyfforddiant ac ymchwil. Ceir defnyddio cyllid fel ysgogiad polisi, drwy osod telerau ac amodau ynghlwm wrtho a thrwy gyllido a chlustnodi gweithgaredd neu faterion penodol.

Er mwyn diogelu ymreolaeth y Comisiwn, darparwyr, a rhyddid academiaidd, mae rhai cyfyngiadau (a nodir ar wyneb y Bil) wedi'u gosod ar y telerau ac amodau y gall Gweinidogion Cymru eu gosod ynghlwm wrth y cyllid i'r Comisiwn. Fodd bynnag, yn ei dro caiff y Comisiwn atodi unrhyw delerau ac amodau y mae'n ystyried eu bod yn briodol (yn ddarostyngedig i rai cyfyngiadau a dyletswydd i ymgynghori ag unrhyw bersonau y mae'r Comisiwn yn ystyried eu bod yn briodol) pan fydd yn cyllido addysg drydyddol ac ymchwil a gweithgareddau eraill mewn perthynas â hyn.

Gall Gweinidogion Cymru reoli mynediad at gyllid trwy wneud rheoliadau i gysylltu cymhwysra i gael cyllid â'r gofyniad i gofrestru (ar y gofrestr a grëir gan Ran 1) neu gofrestru mewn categori penodol.

Cyllido'r Comisiwn

- (S83) Pwerau Gweinidogion Cymru i gyllido'r Comisiwn a'r cyfyngiadau o ran hyn. Mae A83 yn rhoi pwerau i **Weinidogion Cymru** gyllido'r Comisiwn a hefyd sicrhau bod y cyllid hwn yn ddarostyngedig i delerau ac amodau. Caiff y tel-

erau ac amodau gynnwys gofyniad i'r Comisiwn lunio cytundeb canlyniadau gyda pherson y mae'n darparu cyllid iddo. Mae A83 yn nodi'n fanylach beth yw cytundeb canlyniadau. Bwriad cytundebau canlyniadau yw bod yn ysgogiad polisi allweddol i Weinidogion Cymru a'r Comisiwn sicrhau bod darparwyr y maent yn eu cyllido yn cyd-fynd â'r Comisiwn, a thrwy hynny flaenoriaethau Gweinidogion Cymru a'r dyletswyddau strategol yn A2-10.

- (A84) Diogelu ymreolaeth y Comisiwn ac ymreolaeth sefydliadol. Mae'r adran hon yn nodi'r hyn na all Gweinidogion Cymru ei gynnwys yn nhelerau ac amodau ei gyllid i'r Comisiwn o dan A83. Bwriad y rhain yw diogelu ymreolaeth y Comisiwn, darparwyr, rhyddid academiaidd a rhyddid ymchwil. Mae mesurau diogelu ychwanegol ar gyfer cyllid a ddarperir ar gyfer addysg uwch (A85 ac 86) ac ymchwil (A102). Mae'r rhain, ymhlith pethau eraill, yn **atal Gweinidogion Cymru** rhag gosod telerau ac amodau a fyddai'n gorfodi'r Comisiwn i gyllido neu beidio a chyllido rhai cyrsiau addysg uwch, ac mae hefyd yn atal cyrsiau rhag cael eu cyllido yn seiliedig ar gynnwys y cwrs, y trefniadau addysgu neu'r asesiadau. Mae'r cyfyngiadau ychwanegol yn is-adrannau (4), (5) a (6) o adran 84 yn gymwys i gyllid addysg uwch ac ymchwil yn unig, ond nid ydynt wedyn yn gymwys i gyrsiau sy'n cael eu darparu a'u hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn golygu y **gall Gweinidogion Cymru** ddyrannu cyllid i'r Comisiwn wedi'i dargedu at ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg.

Cyllido addysg uwch

- (A85-86) Pwerau i gyllido darpariaeth addysg uwch. Mae A85 yn rhoi pwerau i'r Comisiwn gyllido rhai darparwyr er mwyn cefnogi darpariaeth addysg uwch ganddynt neu ar eu rhan, gydag is-adran (4) yn gosod cyfyngiadau ar allu'r Comisiwn i gyllido hyfforddiant cychwynnol athrawon oni bai fod yr hyfforddiant yn bodloni'r gofynion a nodir mewn rheoliadau. **Gweinidogion Cymru fydd yn rheoli** cymhwysra darparwyr i gael cyllid o dan A85 drwy reoliadau a fydd yn nodi ym mha gategoriâu cofrestru y mae'n rhaid i ddarparwr gofrestru oddi tanynt i fod yn gymwys i gael cyllid o dan A85. Mae A86 **yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru** wneud rheoliadau i bennu 'cyrsiau cymwys' y caiff y Comisiwn eu cyllido y tu allan i'r system gofrestru. Y bwriad yw y gall Gweinidogion Cymru lenwi bylchau yn yr hyn a ddarperir ar gyfer rhai pynciau neu leo-liadau.
- (A87) Telerau ac amodau. Mae'r adran hon yn rhoi **pwerau i'r Comisiwn** osod telerau ac amodau ynghlwm wrth gyllid a roddir o dan A85 ac A86. Caiff y telerau ac amodau fod yn rhai y mae'r Comisiwn yn ystyried eu bod yn briodol –

nid yw'n glir i ba raddau y ceir mesurau diogelwch y tu hwnt i'r rhai a nodir yn ddiweddarach yn A88. Ni all y telerau ac amodau fod mewn perthynas â sut y mae'n rhaid defnyddio cyllid sy'n deillio o ffynonellau eraill, megis incwm a gynhyrchir gan weithgareddau'r darparwr. **Rhaid i'r Comisiwn** atodi telerau ac amodau penodol i gyllid a roddir o dan A86, a bwriedir i'r telerau ac amodau hyn wneud iawn am y ffaith nad yw'r darparwr yn ddarostyngedig i amodau cofrestru (gan fod A86 **yn rhoi pwerau i'r Comisiwn** gyllido darparwyr y tu allan i'r system gofrestru).

- (A88) Wrth gyllido o dan A85 ac A86, **rhaid i'r Comisiwn** roi sylw i ddymunoldeb cynnal unrhyw nodweddion arbennig unrhyw ddarparwr. Rhaid i'r Comisiwn hefyd roi sylw i beidio ag anghymell darparwr rhag cynnal neu ddatblygu cyllid o ffynonellau eraill. Mae'r ddarpariaeth hon eto wedi'i bwriadu fel mesur i ddiogelu ymreolaeth sefydliadol.
- (A89) **Yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru** gyllido ystod benodol a chyfyng o gyrsiau addysg uwch yn uniongyrchol fel y'u nodir yn Neddf Diwygio Addysg 1988 (hynny yw, cyrsiau heblaw graddau wrth baratoi ar gyfer arholiadau proffesiynol ar lefel uwch neu wrth ddarparu addysg ar lefel uwch).

Addysg bellach a hyfforddiant

- (A90-92) Dyletswyddau i sicrhau addysg bellach 'briodol' a 'rhesymol', addysg 'berthnasol' a chyfleusterau hyfforddi. Mae A90 i 92 yn nodi **dyletswyddau a phwerau'r Comisiwn** i sicrhau addysg bellach a hyfforddiant i'r rheini rhwng 16 a 19 oed, i bersonau cymwys dros 19 oed, ac i bawb arall dros 19 oed. Bwriad y tair darpariaeth yw bod y Comisiwn yn blaenoriaethu ei gyllid ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant. Yn gyntaf, ar gyfer (i) sicrhau darpariaeth briodol ar gyfer pobl 16-19 oed, ac addysg a hyfforddiant perthnasol penodol ar gyfer personau cymwys penodol dros 19 oed; ac yna (ii) sicrhau darpariaeth resymol i bawb arall dros 19 oed. Nod y Bil yw cyflawni hyn wrth i'r Comisiwn orfod cyllido cyfleusterau 'priodol' ar gyfer pobl 16-19 oed a chyllido addysg a hyfforddiant perthnasol penodol ar gyfer personau cymwys penodol dros 19 oed (bydd diffiniad 'personau cymwys' yn cael ei nodi mewn rheoliadau), ac yna roi cyllid i gyfleusterau 'rhesymol' ar gyfer person dros 19 oed nad yw'n gymwys. Gall y rheoliadau i ddiffinio personau cymwys ymdrin â materion megis oedran, statws, incwm a chyrhaeddiad addysgol. Mae Llywodraeth Cymru yn disgrifio bod y polisi blaenoriaethu hwn yn 'ehangu'r polisi cyfredol', ond mai'r bwriad serch hynny yw 'cadw hawliau presennol dysgwyr 16 i 19' o ran y gofyniad am gwricwla lleol o dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000.

- (A93) Mae A93 yn nodi'r gofynion y mae'n **rhaid i'r Comisiwn** roi sylw iddynt wrth sicrhau cyfleusterau priodol a sicrhau cyfleusterau rhesymol o dan A90-92. Mae'r rhain yn cynnwys rhoi sylw i ofynion cyflogwyr, cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg a doniau gwahanol bersonau.
- (A94-95) Mae'r adrannau hyn yn nodi **pwerau Gweinidogion Cymru a'r Comisiwn** i roi cymorth ariannol ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant, a rhoi cymorth ariannol i bersonau. Caiff **Gweinidogion Cymru a'r Comisiwn ill dau** 'gyllido unrhyw berson i ddarparu addysg bellach neu hyfforddiant yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, ac addysg bellach neu hyfforddiant i ddysgwyr sydd fel arfer yn preswyllo yng Nghymru'. Mae hyn yn golygu cyllid i'r ddau ddarparwr, ond hefyd yn uniongyrchol i ddysgwyr ar ffurf cymorth ariannol (hynny yw, costau cludiant, costau gofal plant). Efallai y bydd y pŵer eang hwn yn cael ei addasu gan **Weinidogion Cymru drwy A95 sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru** wneud rheoliadau i nodi na ellir ond rhoi adnoddau i ddarparwyr o dan A94 i ddarparwyr cofrestredigmewn categorïau cofrestru penodol. Yn ei dro, caiff y rheoliadau bennu eithriadau i'r uchod sy'n golygu y **gall Gweinidogion Cymru neu'r Comisiwn** gyllido'n uniongyrchol ddarpariaeth gan ddarparwyr nad ydynt wedi'u cofrestru ar gyfer addysg a hyfforddiant penodol. Byddai hyn yn caniatáu darparu dysgu a oedd yn rhy arbenigol neu nad oedd yn gost-effeithiol i ddarparwyr cofrestredig ei gynnig.
- (A96) Telerau ac amodau Mae'r adran hon yn nodi, pan fydd y Comisiwn neu Weinidogion Cymru yn darparu adnoddau ariannol o dan A94, y gallant osod telerau ac amodau y maent yn ystyried eu bod yn briodol. Mae'r adran yn nodi'r hyn y caiff y rhain ei gwmpasu a'r hyn y mae'n rhaid iddynt ei gwmpasu, megis gwaharddiad ar godi ffioedd ar bobl ifanc 16-19 oed mewn addysg bellach a hyfforddiant.
- (A97) Profion modd. Mae hyn yn caniatáu i'r **Comisiwn neu Weinidogion Cymru** gynnal neu gyllido profion modd ac ystyried y profion hyn wrth ganfod unrhyw hawl sydd gan bersonau i gael cymorth ariannol i'w galluogi i gael addysg bellach neu hyfforddiant.
- (A98) Cyllido'r chweched dosbarth mewn ysgolion. Mae hyn yn rhoi **pŵer i'r Comisiwn** gyllido addysg a ddarperir gan chweched dosbarth ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol, a phŵer i osod telerau ac amodau 'priodol' ar gyfer y cyllid hwnnw.

- (A99) Anghenion Dysgu Ychwanegol Mae'r adran hon **yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn** roi sylw i anghenion pobl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a dymunoldeb sicrhau bod cyfleusterau ar gael a fyddai'n cynorthwyo i gyflawni dyletswyddau o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae Llywodraeth Cymru yn esbonio mai bwriad polisi A99 yw y **bydd y Comisiwn** yn 'sicrhau cyfleusterau cyffredinol, priodol a rhesymol ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol'. Mae'n mynd ati i ddweud mai'r bwriad yw 'y bydd awdurdodau lleol yn gyfrifol am sicrhau a chyllido darpariaeth arbenigol i unigolion, gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth bwyd a llety angenrheidiol, o dan Deddf 2018'.
- (A100) Cymorth ariannol ar gyfer gweithgareddau eraill. Mae'r adran hon yn rhoi **pŵer i'r Comisiwn neu Weinidogion Cymru** gyllido ystod eang o weithgareddau mewn perthynas ag addysg drydyddol. Mae'r rhain yn cynnwys darparu gwybodaeth, cyngor a chanllawiau ynghylch addysg a hyfforddiant yng Nghymru; darparu cyfleusterau sydd wedi'u cynllunio i ffurfio cysylltiadau rhwng cyflogwyr a darparwyr; a chyllido addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cymorth ariannol ar gyfer prentisiaethau

- (A101) Cyllid ar gyfer prentisiaethau a datblygu fframwaith prentisiaeth. Mae'r adran hon **yn rhoi pwerau i'r Comisiwn** gyllido darparwyr 'prentisiaeth Gymreig gymeradwy' ac i gyllido person i ddatblygu prentisiaeth o'r fath. Gall y Comisiwn osod telerau ac amodau ynghlwm wrth y cyllid hwn fel y gwêl yn briodol, er bod y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gymhwyso rhai amodau fel y'u nodir yn is-adran (7). **Caiff Gweinidogion Cymru** wneud rheoliadau fel bod cymhwystra ar gyfer y cyllid hwn wedi ei gfyngu i ddarparwyr sydd wedi'u cofrestru mewn categorïau penodol, ac fel yn A95 ar gyfer cyllido addysg a hyfforddiant, ceir gwneud eithriadau. Gall darparwr drosglwyddo cyllid i 'gorff sy'n cydlafurio' mewn trefniant is-gontractio gyda chydsyniad y Comisiwn. O'r wybodaeth bresennol sydd wedi ei chyhoeddi, nid yw'n glir a oes rhaid i ddarparwyr gael cydsyniad Llywodraeth Cymru i wneud hynny ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd, darperir prentisiaethau gan rwydwaith o sefydliadau addysg bellach a darparwyr hyfforddiant preifat a thrydydd sector sydd wedi gwneud ceisiadau llwyddiannus i gael contractau ar sail 5 mlynedd.

Ymchwil ac arloesi

- (A102-103) Cymorth ariannol ar gyfer ymchwil ac arloesi. Caiff y Comisiwn gyllido gweithgareddau ymchwil ac arloesi mewn darparwr penodol, sy'n golygu darparwr cofrestredig sydd wedi'i gofrestru mewn categori penodol yn unol â rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Mae hyn yn awgrymu **na fydd gan y Comisiwn ond bwerau i** gyllido prifysgolion gan nad oes darpariaeth i gyrff nad ydynt yn ymwneud ag addysg drydyddol gael eu cofrestru o dan y Bil. Gall y Comisiwn osod telerau ac amodau y mae'n ystyried eu bod yn briodol. Bu rhanddeiliaid yn galw ar Bwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau'r Bumed Senedd **am i'r Comisiwn allu cyllido ystod ehangach o gyrff fel megis Amgueddfa Cymru** gan ei fod yn gallu cael gafael ar grantiau ymchwil gan gorff cyllido ymchwil y DU, sef UKRI. Am wybodaeth gefndirol am y system ymchwil yn y DU, gweler **papur briffio cynhwysfawr Ymchwil y Senedd ar ymchwil ac arloesi yng Nghymru**. Mae is-adran 103(4) yn nodi bod yn rhaid i'r Comisiwn roi sylw 'i'r egwyddor ei bod yn well gwneud penderfyniadau ar gynigion ymchwil neu arloesi unigol yn dilyn gwerthusiad o ansawdd y cynigion a'u heffaith tebygol'. Eglura Llywodraeth Cymru fod hyn yn cyd-fynd ag Egwyddor Haldane a eglurir ar dudalen 16 o'r briff uchod. Er nad yw'r Bil yn defnyddio'r term 'Egwyddor Haldane', mae'r geiriad yn is-adran (4) yn union yr un fath â'r disgrifiad o'r egwyddor a ddefnyddir yn Neddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 **(A103 o Ddeddf 2017)**.
- (A104) Swyddogaethau eraill mewn perthynas ag ymchwil ac arloesi. Rhaid i'r Comisiwn hybu ymwybyddiaeth o'r gweithgareddau ymchwil ac arloesi y mae'n eu cyllido, lledaenu canlyniadau'r gweithgareddau ac annog rhagor o weithgareddau ymchwil ac arloesi. Rhaid iddo adrodd ar ymchwil ac arloesi yn ei adroddiad blynyddol.

Cyrff sy'n cydlafurio: cydsyniad

- (A105) Mesurau rheoli ar gyfer cyllid a drosglwyddir i gyrff sy'n cydlafurio. **Caiff Gweinidogion Cymru** wneud rheoliadau i osod mesurau rheoli ynghylch cyllid sy'n cael ei drosglwyddo i gyrff sy'n cydlafurio (hynny yw, is-gontractwyr). Gellir cyflawni hyn gan fod Gweinidogion Cymru yn gallu gwneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ystyried rhai materion pan fydd yn rhoi ei gydsyniad i gyllid gael ei drosglwyddo i gyrff sy'n cydlafurio. Mae'n gyffredin i brifysgolion a darparwyr prentisiaethau freinio neu is-gontractio darpariaeth i gyrff eraill – nid yw'n glir a oes angen cydsyniad Llywodraeth Cymru neu

CCAUC ar hyn o bryd os yw darparwyr yn trosglwyddo cyllid gan Weinidogion Cymru neu CCAUC.

Cyfarwyddydau cymorth ariannol

- (A106) Os yw'n ymddangos i Weinidogion Cymru bod materion ariannol person perthnasol (darparwyr cofrestredig a phersonau sy'n cael cyllid o dan ddarpariaeth benodol fel y'i nodir yn yr adran) wedi cael eu camreoli neu'n cael eu camreoli, gallant ddyroddi cyfarwyddyd cymorth ariannol i'r Comisiwn y mae'n rhaid iddo gydymffurfio ag ef.

Rhan 4: Prentisiaethau

Mae prentisiaethau o fewn portffolio Gweinidog yr Economi yn hytrach na Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, sef yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil hwn. Darperir prentisiaethau gan **rwydwaith o ddarparwyr hyfforddiant** ar sail proses dendro gystadleuol oddeutu unwaith bob 5 mlynedd. Mae'r darparwyr hyn (y prif gontractwyr) yn cael eu contractio gan Lywodraeth Cymru i gynnal darpariaeth brentisiaethau a gallant, maes o law, ddefnyddio is-gontractwyr i gynnal darpariaethau ar eu rhan.

Rhaid i brentisiaid gwblhau fframwaith prentisiaeth i gael tystysgrif prentisiaeth. Yn gyffredinol, fframweithiau yw'r cymwysterau, y wybodaeth a'r ymarfer sydd eu hangen i gyrraedd y safonau gofynnol i ennill tystysgrif gwblhau. Mae fframweithiau'n cael eu cymeradwyo (eu dyroddi) gan Lywodraeth Cymru, a rhaid iddynt gyd-fynd â manyleb a nodir gan Lywodraeth Cymru, ond gallant gael eu datblygu gan bersonau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Cyhoeddir tystysgrifau ar ran Llywodraeth Cymru gan awdurdod ardystio dan gontract.

Mae Llywodraeth Cymru yn rheoli'r galw am brentisiaethau trwy gyfyngu ar fynediad yn seiliedig ar oedran, cymwysterau presennol, nifer a lleoliad y dysgwyr, pwnc y brentisiaeth a'r lefel. Bydd darpariaeth prentisiaethau yn dod o dan gylch gwaith y Comisiwn.

Rhagarweiniol

- (A107-110) Ystyr termau prentisiaeth. Mae'r adrannau hyn yn diffinio'r termau a ganlyn:
 - Prentisiaeth Gymreig gymeradwy: mae hwn yn drefniant sy'n digwydd o dan gytundeb prentisiaeth Gymreig cymeradwy (neu'n brentisiaeth

Gymreig amgen) lle mae'r gwaith yn digwydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru. Rhaid i brentisiaeth o'r fath fodloni unrhyw amodau mewn rheoliadau y **caiff Gweinidogion Cymru eu gwneud**.

- Cytundeb prentisiaeth Gymreig gymeradwy: rhaid i'r cytundeb ddarparu i berson weithio am dâl mewn galwedigaeth sydd â fframwaith prentisiaeth perthnasol sydd wedi'i gyhoeddi. **Caiff Gweinidogion Cymru** wneud rheoliadau i bennu amodau pellach.
- Prentisiaeth Gymreig amgen: mae'r trefniant hwn **yn caniatáu i Weinidogion Cymru** wneud rheoliadau i ganiatáu i brentisiaeth gael ei thrin fel prentisiaeth Gymreig gymeradwy mewn rhai achosion. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi enghraifft pan fo person yn gweithio fel person hunangyflogedig.
- Fframwaith prentisiaeth: mae fframwaith yn ddogfen sy'n nodi'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni i gyflawni prentisiaeth Gymreig gymeradwy. Mewn termau llewg, mae'n golygu'r cwrs gwaith ac astudio y mae'n rhaid i brentis ei ddilyn i ennill eu prentisiaeth. Yn gyffredinol, mae fframwaith fel arfer yn gofyn am gwblhau cymhwyster neu gymwysterau penodol ynghyd â nifer benodol o oriau ymarfer a gwaith - gall hyn amrywio ond dim ond o fewn y fanyleb bresennol (gweler y drafodaeth isod ynghylch SASW).

Swyddogaethau Gweinidogion Cymru

- (A111-112) **Caiff Gweinidogion Cymru** bennu gofynion mewn perthynas â fframweithiau prentisiaeth. Ar hyn o bryd mae'n rhaid i fframweithiau prentisiaethau yng Nghymru fodloni'r Fanyleb ar gyfer Pennu Safonau Prentisiaethau i Gymru (SASW). Mae'r rhain yn gyffredinol yn nodi'r hyn y mae'n rhaid i fframwaith ei gynnwys a'r hyn y mae angen iddo ymdrin ag ef. Er enghraifft, mae'n rhaid i'r holl fframweithiau o dan y SASW cyfredol nodi manylion ynghylch y cymwyseddau galwedigaethol, a'r wybodaeth dechnegol sydd ei hangen i'w gwblhau, a nodir y gall y rhain fod yn gymwysterau ar wahân neu'n rhai wedi eu cyfuno'n un. Gwahaniaeth allweddol rhwng y SASW presennol a'r pwerau a fwriedir yn A111 yw mai dim ond drwy offeryn statudol y gellir newid y SASW presennol, ac nid yw hyn yn ofynnol o dan A111 – bwriedir i hyn wneud y system yn fwy ymatebol. Mae A112 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ar y fanyleb.

Swyddogaethau'r Comisiynydd

- (A113-114) Llunio a chyhoeddi fframweithiau mewn cofrestr. Mae'r adran hon yn **caniatáu i'r Comisiwn** lunio fframweithiau prentisiaeth neu drefnu bod fframweithiau prentisiaeth yn cael eu llunio. Ni all fframwaith prentisiaeth fod yn rhan o brentisiaeth Gymreig gymeradwy nes iddo gael ei gyhoeddi, a chaiff y Comisiwn gyhoeddi fframweithiau nad yw wedi'u llunio ei hun neu sydd wedi eu llunio ar ei ran. **Rhaid i'r Comisiwn** adolygu'n barhaus fframweithiau a gyhoeddir a'u hadolygu neu eu tynnu'n ôl lle bo'n penderfynu bod angen gwneud hynny. **Rhaid i'r Comisiwn** gynnal a chyhoeddi cofrestr o fframweithiau prentisiaethau. Cyhoeddir fframweithiau cyfredol gan Ffederasiwn Sgiliau a Safonau Sector Diwydiant, neu FISSS (ond nis cymeradwyir gan FISSS). Ar hyn o bryd Llywodraeth Cymru sy'n cymeradwyo (dyroddi) fframweithiau prentisiaeth.
- (A115-116) Rhoi **pwerau i'r Comisiwn** ddyroddi tystysgrifau i'r rhai sydd wedi cwblhau prentisiaeth Gymreig. FISSS yw'r awdurdod ardystio presennol ar gyfer tystysgrifau prentisiaeth. Mae A116 **yn caniatáu i'r Comisiwn** ddynodi person a dirprwyo iddo'r gwaith o ddyroddi a chyhoeddi tystysgrifau prentisiaeth.

Darpariaethau atodol ynghylch cytundebau prentisiaeth

- (A117-120) Mae'r adrannau hyn yn ymdrin â materion technegol megis peidio â thrin cytundeb prentisiaeth Gymreig fel contract prentisiaeth (hynny yw, nad ydynt yn brentisiaeth cyfraith gyffredin), trosglwyddo hawlfraint o'r awdur i'r Comisiwn pan gyhoeddir fframwaith gan y Comisiwn, a Gweision y Goron yn gallu ymgymryd â phrentisiaethau.

Rhan 5: Diogelu dysgwyr, gweithdrefnau cwyno ac ymgysylltu â dysgwyr

- (A122) Cynlluniau Diogelu Dysgwyr. **Caiff y Comisiwn** roi hysbysiad i ddarparwr addysg drydyddol perthnasol yn 'gofyn' iddo gyflwyno cynllun diogelu dysgwyr i'r Comisiwn ar ddyddiad penodol neu cyn dyddiad penodol. Diffinnir 'darparwr perthnasol' yn is-adran (10). Bwriad cynlluniau diogelu dysgwyr yw diogelu buddiannau dysgwyr os bydd cwrs yn peidio â chael ei ddarparu am unrhyw re-swm, a chefnogi person i drosglwyddo i gwrs addysg drydyddol arall. Ar ôl rhoi hysbysiad, gorfodir y cynllun drwy amodau cofrestru a thelerau ac amodau cyl-lido. **Mae gan y Comisiwn ddisgresiwn** a ddylid cyflwyno hysbysiad i ddarparwr ai peidio. Mae ymarferoldeb cynllun diogelu dysgwyr effeithiol yn debygol o

fod yn hynod gymhleth, a bydd yn gofyn am gydlafurio rhwng llawer o bartïon.

- (A123-124) Cwynion. **Rhaid i'r Comisiwn** gymryd camau i sicrhau bod darparwr addysg drydyddol perthnasol wedi sefydlu gweithdrefn gwynion a'i fod yn gwneud dysgwyr yn ymwybodol o sut i gael gafael ar y weithdrefn. Mae A124 yn diwygio Deddf Addysg Uwch 2004 i ganiatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ehangu'r ystod o ddysgwyr sy'n gallu defnyddio gwasanaethau Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol sy'n ymdrin â chwynion heb eu datrys y tu hwnt i fyfyrwyr addysg uwch. Mae Llywodraeth Cymru yn egluro mai'r bwriad yw ehangu pwy gaiff ddefnyddio gwasanaethau Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol yn raddol er mwyn caniatáu amser i'r Swyddfa adeiladu ar ei gapasiti.
- (S125) Y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr. **Rhaid i'r Comisiwn** lunio Cod Ymgysylltu â Dysgwyr, a chyhoeddi'r Cod hwnnw. Bwriad y ddarpariaeth hon yw ymateb i'r canfyddiad yn adroddiad Tuag at 2030 nad oedd y system addysg drydyddol yn canolbwyntio'n ddigonol ar y dysgwr. Gall y cod hwn gwmpasu materion megis sicrhau bod buddiannau dysgwyr yn cael eu cynrychioli'n effeithiol; eu bod yn cael cyfleoedd i gyfrannu at benderfyniadau a wneir; a'u bod yn gallu rhoi eu barn. Bydd y Cod yn gymwys i ddarparwyr perthnasol a phenderfyniadau perthnasol gan y darparwr. Gorfodir cydymffurfedd lle bo hynny'n berthnasol drwy gofrestru a thelerau ac amodau cyllido. Mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd angen i'r Cod 'ganiatáu rhywfaint o gymesuredd' ar gyfer gwahanol fathau a meintiau darparwr os oes angen.

Rhan 6: Gwybodaeth, cyngor a chanllawiau

- (A126-131) Mae'r adrannau hyn yn nodi darpariaethau ynghylch rhannu gwybodaeth. Maent yn cwmpasu:
 - Gwybodaeth a chyngor y mae'n rhaid i'r Comisiwn eu rhoi i Weinidogion Cymru
 - Pwerau'r Comisiwn i ofyn am wybodaeth gan bersonau eraill
 - Darpariaeth i ganiatáu i gyrff penodol rannu gwybodaeth â'r Comisiwn
 - Pwerau i Weinidogion Cymru ofyn am wybodaeth o gyflwyno'r cais i dderbyn y cynnig (mae'n debygol y bydd UCAS yn gofyn am hyn) i Weinidogion Cymru neu'r Comisiwn at ddibenion ymchwil cyfyngedig
 - Sut y caiff Gweinidogion Cymru ddefnyddio gwybodaeth o wneud y cais i dderbyn y cynnig.
 - Pwerau'r Comisiwn i roi cyngor a dyroddi canllawiau i unrhyw berson

ynghylch darparu addysg drydyddol neu unrhyw fater arall sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Comisiwn.

- (A132) Mae'r adran hon **yn caniatáu Gweinidogion Cymru neu'r Comisiwn** i gynnal gwaith ymchwil, gan nodi'r pynciau y gellir ymchwilio iddynt. Nid yw'r pŵer hwn yn ymwneud â gweithgareddau ymchwil ac arloesi a gynhelir gan sefydliadau eraill, mae'n ymwneud â'r Comisiwn ei hun yn cynnal ymchwil ar faterion megis addysg neu hyfforddiant yng Nghymru a materion cysylltiedig. Pan fydd y Comisiwn neu Weinidogion Cymru yn darparu cyllid i gorff arall gynnal yr ymchwil hon, gallant osod telerau ac amodau fel y gwelant yn briodol.

Rhan 7: Amrywiol a chyffredinol

Corfforaethau addysg uwch

- (A133-134) Mae'r adrannau hyn yn cynnwys darpariaeth dechnegol sy'n ymwneud â dogfennau llywodraethu corfforaethau addysg uwch. Yng Nghymru, mae prifysgolion naill ai'n gorfforaethau addysg uwch (mae 4 o'r rhain) neu'n brifysgolion wedi'u sefydlu drwy Siarter Frenhinol (mae 4 o'r rhain). Mae corfforaethau addysg uwch yn cael eu llywodraethu yn unol â'u dogfennau llywodraethu. Mae'r gyfraith bresennol, ym marn adolygiad gan Comisiwn y Gyfraith, yn creu rhwystrau i gorfforaethau addysg uwch adolygu a diwygio eu dogfennau llywodraethu. Bydd y darpariaethau yn yr adrannau hyn yn caniatáu, rywbryd yn y dyfodol yn ôl esboniad y Memorandwm Esboniadol, y dylid bwrw ymlaen â'r cynigion yn adolygiad Comisiwn y Gyfraith ynghylch symleiddio'r broses o ddiwygio dogfennau llywodraethu. Mae Llywodraeth Cymru yn egluro bod ad-borth rhanddeiliaid wedi dylanwadu ar y penderfyniad hwn i beidio â gwneud newidiadau ar unwaith.
- (A135) Pwerau Gweinidogion Cymru i ddiddymu corfforaethau addysg uwch. Mae A128 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 **yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, i ddiddymu corfforaethau addysg uwch**. Mae hwn yn bŵer eang sy'n mynd ymhellach nag a wneir yn Lloegr lle na all yr Ysgrifennydd Gwladol ond diddymu corfforaeth addysg uwch os yw'r gorfforaeth yn gwneud cais i'r perwyl hwnnw. O dan A128 o Ddeddf 1988, dim ond ymgynghori â'r gorfforaeth addysg uwch ynghylch eu bwriad sydd angen i Weinidogion Cymru ei wneud. Roedd A128 o Ddeddf 1988 yn rhoi'r pŵer a ddefnyddiwyd i ddiddymu cyn-brifysgolion Casnewydd a Morgannwg i ffurfio Prifysgol De Cymru, a hwn oedd y pŵer y cynigiodd Gweinidogion Cymru ei arfer i ddiddymu UWIC/Met Caerdydd a throsglwyddo ei asedau i Brifysgol De Cymru. Mae A135 yn cadw'r

pŵer hwn i Weinidogion Cymru. Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn nodi rhesymeg glir dros gadw'r pŵer hwn er i Lywodraeth Cymru ymgynghori ar gael gwared arno. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro 'mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod angen cadw pŵer Gweinidogion Cymru i ddiddymu corfforaeth addysg uwch mewn amgylchiadau lle nad yw'r prifysgol ei hun wedi gwneud cais'.

Ymgynghori ynghylch gwasanaethau gyrfaoedd

- (A136) Bydd Gyrfa Cymru yn parhau i fod y corff sy'n gyfrifol am ddarparu cyn-gor a chanllawiau ar wybodaeth gyrfaoedd i ddysgwyr. Fodd bynnag, **rheid i Weinidogion Cymru** ymgynghori â'r Comisiwn yn flynyddol mewn perthynas â'r blaenoriaethau strategol ar gyfer y gweithgaredd hwn.

Cyffredinol

Mae'r adran hon yn cynnwys amryw o ddarpariaethau technegol ac amrywiol. Mae darpariaethau dethol wedi'u crynhoi isod.

- (A138) Rheoliadau. Mae'r ddarpariaeth hon yn nodi'r rheoliadau hynny lle mae'n rhaid gosod drafft ohonynt gerbron y Senedd a chael eu cymeradwyo drwy benderfyniad y Senedd drwy'r weithdrefn gadarnhaol¹. Mae'r Bil yn cynnwys 47 o bwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau, ac un pŵer i wneud gorchmynion ynghylch cychwyn darpariaethau – mae 27 o'r rhain drwy'r weithdrefn negyddol².
- (A140) Nid yw'r Brifysgol Agored yn dod o fewn y diffiniad o ddarparwr addysg drydyddol yng Nghymru gan nad yw ei gweithgareddau'n digwydd yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru. Mae'r ddarpariaeth hon yn caniatáu i Weinidogion wneud rheoliadau i drin y Brifysgol Agored i'r perwyl hwnnw, ond rhaid iddynt ymgynghori â'r Brifysgol Agored cyn gwneud rheoliadau o'r fath.
- (A143) Cychwyn. Dim ond A138-141 ac A143-144 o'r Bil sy'n dod i rym y diwrnod ar ôl y Cydsyniad Brenhinol. Bydd yr holl ddarpariaethau eraill yn cael eu cychwyn drwy orchymyn.

¹ Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru osod drafft o'r rheoliadau gerbron y Senedd ac ni ellir gwneud y rheoliadau oni bai fod y Senedd yn cymeradwyo'r drafft.

² Mae hyn yn golygu y bydd y rheoliadau'n cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd.

Atodlenni

Ceir pedair atodlen i'r Bil. Trafodir y rhain ym mhrif gorff y crynodeb uchod:

- Atodlen 1 – Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
- Atodlen 2 – Trosglwyddo eiddo a staff i'r Comisiwn
- Atodlen 3 – Asesu addysg uwch: corff dynodedig
- Atodlen 4 – Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol

4. Costau ac effeithiau'r Bil

Arfarnu'r opsiynau

I ddechrau, ystyriodd Llywodraeth Cymru 6 opsiwn a 5 is-opsiwn fel a ganlyn:

- Opsiwn 1: Busnes fel arfer
- Opsiwn 2: Cyfuno ar draws y sector, a defnyddio pwerau presennol i addasu dyletswyddau a chyfrifoldebau CCAUC
- Opsiwn 3: Mabwysiadu'r dull a ddatblygwyd yn Lloegr
- Opsiwn 4: Canoli
 - Opsiwn 4a: Trosglwyddo'r holl swyddogaethau i Lywodraeth Cymru a diddymu CCAUC
 - Opsiwn 4b: Fel yr uchod ond gyda chorff ar wahân ar gyfer ymchwil
- Opsiwn 5: Sefydlu Awdurdod Addysg Drydyddol ar raddfa fach i ysgwyddo'r rhan fwyaf o swyddogaethau CCAUC ac ysgwyddo cyfrifoldeb dros rai swyddogaethau eraill
 - Opsiwn 5a: Byddai Awdurdod Addysg Drydyddol yn ymgymryd â swyddogaethau ar gyfer addysg bellach, prentisiaethau, rhai agweddau ar y chweched dosbarth, ac addysg uwch.
 - Opsiwn 5b: Fel yr uchod ond gyda dyletswyddau i ddatblygu gwybodaeth am y farchnad lafur a phartneriaethau sgiliau rhanbarthol a chynghori Llywodraeth Cymru ar strategaeth addysg drydyddol yn y dyfodol.
 - Opsiwn 5c: Fel opsiwn 5b ond gyda chorff ar wahân ar gyfer ymchwil
- Opsiwn 6: Sefydlu Awdurdod Addysg Drydyddol ar raddfa fawr i ysgwyddo holl swyddogaethau CCAUC a swyddogaethau eraill ar draws y sector.

Diystyrododd Llywodraeth Cymru opsiynau 2, 3 a 5 yn gynnar. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mwy o fanylion am yr opsiynau a ystyriwyd ymhellach (1, 4 a 6). Yr opsiwn a ffefrir oedd Opsiwn 6, sef sefydlu Awdurdod Addysg Drydyddol ar raddfa fawr, hynny yw, y Comisiwn. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi y byddai'r dull o wneud dim yn golygu y byddai'r heriau presennol yn parhau, ac ni fyddai canoli

wedi cyflawni'r ystod lawn o ganlyniadau manteisiol.

Costau a rhagdybiaethau

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai cost ychwanegol net yr opsiwn a ffefrir (sef sefydlu'r Comisiwn) yw £45.034 miliwn dros gyfnod asesu o 10 mlynedd. Mae'r costau hyn yn cynnwys costau trosiannol, costau presennol Llywodraeth Cymru a CCAUC hyd nes bod y Comisiwn wedi'i sefydlu, ac yna costau parhaus y Comisiwn am weddill y cyfnod asesu 10 mlynedd.

Cost opsiwn 6, ffynhonnell: Memorandwm Esboniad y Bil		
Disgrifiad o'r gost	Blynyddoedd	Cost (£,000)
Costau trosiannol	2021-22 i 2023-24	9,949
Costau staffio Llywodraeth Cymru a chostau cysylltiedig	2021-22 i 2022-23	22,976
Costau staffio CCAUC a chostau cysylltiedig	2021-22 i 2022-23	7,308
Costau rheolaidd wrth redeg y Comisiwn	2023-24 i 2030-31	158,221
Cyfanswm costau	2021-22 i 2030-31	198,454
Llai: Costau gwneud dim	2021-22 i 2030-31	-153,420
Costau ychwanegol net	2021-22 i 2030-31	45,034

Mae'r costau trosiannol yn cynnwys rhagdybiaethau o £2 filiwn ar gyfer diswyddiadau, a £4.9 miliwn ar gyfer costau TGCh ynghyd â chostau eraill.

O 2024-25, pan fo'r model costau yn tybio y bydd y Comisiwn wedi'i sefydlu'n llawn, amcangyfrifir mai £19.760 miliwn fydd ei gostau rhedeg blynyddol o'i gymharu â £15.142 miliwn ar gyfer y trefniadau presennol.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro:

- Ni fu'n bosibl meintoli arbedion cost .
- Nid oes costau anuniongyrchol i gyrff eraill wedi'u meintoli. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn rhestru 10 categori o gyrff a allai arwain at gostau ychwanegol yn sgil y Bil.
- Nid yw'r buddion wedi'u meintoli.

Eir ymlaen i nodi mai'r prif ragdybiaethau yw:

- Ni chymhwyswyd unrhyw ffactorau chwyddiant na disgowntio i'r ffigurau a ragwelwyd.
- Mae cryn ansicrwydd ynghylch cyfanswm y gost o greu meddalwedd casglu data bwrpasol ar gyfer y Comisiwn (amcangyfrifwyd £1.150 miliwn).

O ystyried y ffactorau ansicr hyn, mae'r Memorandwm Esboniadol yn awgrymu y dylid ystyried cyfradd amrywiant o oddeutu 30% ar y ffigurau a ragwelwyd. Mae'r tabl isod yn dangos yr effaith yn sgil cynnydd o 30% yn y costau a ragwelir.

Dadansoddiad sensitifrwydd dandosol ar gyfer amrywiant posibl o 30% ar gyfer ffigurau a nodir yn yr asesiad effaith rheoleiddiol

Disgrifiad o'r cost	Blynyddoedd	Cost (£,000)	+ 30% (£,000)
..	..		
Costau trosiannol	2021-22 to 2023-24	9,949	12,934
Costau staffio Llywodraeth Cymru a chostau cysylltiedig	2021-22 to 2022-23	22,976	29,869
Costau staffio CCAUC a chostau cysylltiedig	2021-22 to 2022-23	7,308	9,500
Costau rheolaidd wrth redeg y Comisiwn	2023-24 to 2030-31	158,221	205,687
Cyfanswm costau	2021-22 to 2030-31	198,454	257,990
Llai: Costau gwneud dim	2021-22 to 2030-31	153,420	153,420
Costau ychwanegol net	2021-22 to 2030-31	45,034	104,570

Nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi i ba ffigurau y mae'r amrywiant o 30% yn berthnasol, felly at ddibenion dangosol cafodd ei gymhwyso yn unffurf ar draws yr holl gostau. Ffynhonnell: Cyfrifiadau Ymchwil y Senedd yw'r golofn olaf, a chyfrifiadau o Femorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru yw gweddill y tabl.

Mae'r costau a ragwelir a ddefnyddiwyd yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer sefydlu'r Comisiwn i'w gweld ar y dudalen nesaf mewn tabl a gymerwyd o'r Memorandwm Esboniadol. Dylid nodi bod gwallau yn nhabl Llywodraeth Cymru, ond nid ydynt yn effeithio ar y costau terfynol.

Tabl 19.2: Crynodeb o gostau - Opsiwn 6 (Sefydlu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil)

	2021-22 (£,000)	2022-23 (£,000)	2023-24 (£,000)	2024-25 (£,000)	2025-26 (£,000)	2026-27 (£,000)	2027-28 (£,000)	2028-29 (£,000)	2029-30 (£,000)	2030-31 (£,000)	Total (£,000)
Costau Trosiannol											
Costau staff	205	292	-	-	-	-	-	-	-	-	497
Costau'r Bwrdd	43	198	-	-	-	-	-	-	-	-	241
Dileu swyddi	-	-	2,031	-	-	-	-	-	-	-	2,031
Costau staff nad ydynt wedi'u cynnwys yn y gyflogres	39	132	260	-	-	-	-	-	-	-	431
Costau TG - cyfalaf	-	4,033	869	-	-	-	-	-	-	-	4,902
Costau Corfforaethol Eraill	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Costau Lleoliad - cyfalaf	-	1,847	-	-	-	-	-	-	-	-	1,847
Costau'r Rhaglen	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Cyfanswm	287	6,502	3,160	-	-	-	-	-	-	-	9,949
Costau Rhedeg											
Costau staff	-	-	12,980	12,980	12,980	12,980	12,980	12,980	12,980	12,980	28,130
Costau'r Bwrdd	-	-	292	276	276	276	276	276	276	276	1,190
Dileu swyddi	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Costau staff nad ydynt wedi'u cynnwys yn y gyflogres	-	-	383	383	383	383	383	383	383	383	1,000
Costau TG - cyfalaf	-	-	5,080	5,157	5,157	5,157	5,157	5,157	5,157	5,157	4,930
Costau Corfforaethol Eraill	-	-	638	638	638	638	638	638	638	638	1,870
Costau Lleoliad - cyfalaf	-	-	326	326	326	326	326	326	326	326	1,420
Costau'r Rhaglen	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	0
Cyfanswm	-	-	19,699	19,760	19,760	19,760	19,962	19,760	19,760	19,760	158,221
Busnes fel Arfer	15,142	15,142									30,284
Cyfanswm	15,429	21,644	22,859	19,760	19,760	19,760	19,962	19,760	19,760	19,760	198,454

Asesiadau Effaith Integredig

Mae Pennod 20 yn nodi'r ystod o asesiadau effaith a gynhelir. Cynhaliwyd asesiadau effaith penodol ar y pynciau a ganlyn:

- Hawliau plant (nid yw Llywodraeth Cymru wedi nodi unrhyw effeithiau negyddol)
- Cydraddoldeb
- Prawfesor polisiau o safbwynt anghenion cefn gwlad
- Data
- Y Gymraeg
- Bioamrywiaeth
- Y Ddyletswydd economaidd-gymdeithasol
- Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder

5. Yr ymateb i'r Bil

Gwnaeth yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil, sef Gweinidog y Gymraeg ac Addysg **ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn ar 3 Tachwedd 2021** yn cyflwyno'r Bil. Fe wnaeth Aelodau godi'r materion a ganlyn yn ystod y datganiad.

Croesawodd Laura Jones AS ddwyn ynghyd y sectorau ar wahân, a hynny o dan un corff, ond mynegodd bryderon ynghylch amseriad y diwygiadau o ystyried pwysau'r pandemig a'r cwricwlwm newydd. Gofynnodd i'r Gweinidog am ragor o wybodaeth am y penodiadau i Fwrdd y Comisiwn, a gwnaeth bwyntiau ynghylch yr angen am lwybrau dysgu effeithiol, yr angen am ryngwyneb rhwng darpariaeth cyn-16 ac ôl-16 a phwysigrwydd dysgu gydol oes a phrentisiaethau.

Atebodd y Gweinidog:

Ar y cwestiwn pwysig ynghylch amseru, rwy'n deall yn iawn y cyd-destun ar gyfer y cwestiwn y mae'r Aelod yn ei ofyn, ond credaf fod y cydlifiad a'r cyd-destun rydym ynddo'n gwneud yr angen am y Bil yn fwy dybryd, mewn gwirionedd. [...] Bydd y broses o benodi pobl yn aelodau o'r bwrdd yn dilyn y llwybr penodiadau cyhoeddus yn y ffordd arferol, a bydd angen ystod o sgiliau ar y bwrdd o ystod o gefndiroedd, o addysg ond hefyd o ddiwydiant a thu hwnt. Felly, bydd y penodiadau cychwynnol yn cynnwys y cadeirydd, y dirprwy gadeirydd, y prif weithredwr ar gyfer y penodiad cyntaf, a'r bwrdd, gan Lywodraeth Cymru drwy'r broses benodiadau cyhoeddus [...] mae'n bwysig fod y Bil yn dod â'r chweched dosbarth o fewn cwmpas y comisiwn, er yn anuniongyrchol ar ryw ystyr, gan y credaf y bydd hynny'n arwain at set fwy cydlynol o drefniadau. A chredaf ei bod yn gwneud pwynt pwysig iawn ynglŷn â sicrhau bod addysg cyn-16 ac ôl-16 yn fath o daith ddi-dor yn yr ystyr hwnnw, a chredaf mai nod y Bil hwn yw darparu rhywfaint o gydlyniant [...] Mewn perthynas â phrentisiaethau, credaf y bydd y Bil hwn yn trawsnewid gallu ein system brentisiaethau i fod yn ymatebol yn y ffordd y mae ei chwestiwn yn ei hannog i fod. Mae rhaglen fuddsoddi sylweddol iawn gennym fel Llywodraeth mewn perthynas â phrentisiaethau, a chredaf fod bod yn hyblyg, a gallu ymateb i anghenion yr economi mewn ffordd uniongyrchol yn ganolog i hynny, a bydd y Bil yn cefnogi hynny [...] mae'n nodi set o bwyntiau pwysig mewn perthynas â dysgu gydol oes. Unwaith eto, un o ddyletswyddau allweddol y comisiwn yw hyrwyddo hynny. Rydym yn disgwyl derbyn gwaith cyn bo hir gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, a fydd yn ein cynorthwyo i ddeall yn well beth yw'r cyfleoedd mewn perthynas â dysgu gydol oes.

Croesawodd Sioned Williams AS agweddau ar y Bil, ond nododd rai pryderon a godwyd gan randdeiliaid. Roedd y rhain yn cynnwys pryderon gan UCM Cymru ynghylch y darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud ag ymgysylltu â dysgwyr a llais; y

mesurau diogelu ar gyfer rhyddid academiaidd; sut y bydd y Bil yn sicrhau y bydd prifysgolion yn ymateb i anghenion sgiliau Cymru yn hytrach na gweithredu fel 'endidau masnachol'; a sut y bydd y Bil yn delio â'r heriau o ran darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Atebodd y Gweinidog:

O ran llais y dysgwr, rwy'n credu bod pwyslais newydd yn y Bil ar hynny yn sgil beth yn ni wedi'i glywed gan randdeiliaid [...] Mae'r engagement code, mae'r learner protection code, mae'r ddwy elfen honno'n bwysig iawn o ran rhoi llais ar un llaw, ond hefyd rhoi diogelwch i'r dysgwr mewn amgylchiadau lle efallai bod cwrs yn dod i ben, neu bod y dysgwr eisiau symud rhwng cyrsiau, ac mae'r manylder sydd yn gallu dod yn y codau hynny yn mynd i roi lot o gefnogaeth a lot o ddiogelwch i ddysgwyr yn y cyd-destun hwnnw [...] Ac rwy hefyd yn credu bod y gynrychiolaeth ar fwrdd y comisiwn yn bwysig o ran llais y dysgwr, wrth galon y system newydd. Ond mae'r Bil wedi cael ei gyflwyno, bydd cyfnod estynedig nawr o graffu a siarad ymhellach â rhanddeiliaid, ac rwy'n hapus iawn i glywed ymhellach os oes gan ddysgwyr a'u cynrychiolwyr syniadau am sut y gallwn ni gryfhau yn y ffordd y mae'r Aelod yn ei godi heddiw. [...] Rwy'n cytuno'n llwyr â'r cwestiwn o ryddid academiaidd. Mae hynny'n awr ar wyneb y Bil, fel bod hynny'n ofyniad. Mae hefyd gyfyngiadau ar beth y gall y Llywodraeth ei wneud o ran gofynion wrth y comisiwn [...] Fe wnaeth yr Aelod godi pwynt pwysig ynglŷn â chorfforaethau addysg uwch. Fe wnaethom ni feddwl, wrth ein bod ni'n dylunio'r rhan yma yn y Bil, pa ffordd i fynd â'r cwestiwn hwn—a dweud y gwir, roedd trafodaeth ynglŷn â beth oedd y ffordd iawn i fynd. Yn y pen draw, fe wnaethom ni gadw at yr hyn sydd yn y gyfraith eisoes [...] Y rheswm am hynny yw bod angen rhyw fath o backstop mewn rhai amgylchiadau—mewn rhyw fath o senario argyfyngus y byddai e'n codi, wrth gwrs. Ond mae risg, os nad yw'r pwerau'n bodoli, efallai'r na fyddai'r sefydliad mewn sefyllfa i ofyn i'r Llywodraeth ymyrryd, ond hefyd bod angen Deddf seneddol er mwyn newid y sefyllfa. Felly, jest cwestiwn ymarferol yw e. Ond eto, rwy'n hapus i glywed os ydy pobl yn credu bod angen cryfhau hynny, cryfhau'r ffyrdd o sicrhau hynny. Mae cyfraith gyhoeddus, wrth gwrs, yn berthnasol fan hyn [...] Ar wyneb y Bil, mae'n ddyletswydd gan y comisiwn i yrru'r galw am addysg ôl-16 yn Gymraeg, ond hefyd mae amryw o ffyrdd mae hynny'n gallu digwydd. Y memorandum esboniadol, mae eithaf rhan o hwnna yn esbonio pa fathau o bethau byddai'r comisiwn yn gallu eu gwneud, ond byddwn yn hapus i drafod hwnna mewn manylder gyda'r pwyllgor, er enghraifft, os ydy hynny o ddi-ddordeb, achos rwy'n credu bod lot gallwn ni ei wneud yn y rhan hon.

Cyfeiriodd Jenny Rathbone AS at yr angen i sicrhau cydraddoldeb parch rhwng sgiliau academiaidd a sgiliau galwedigaethol. Gofynnodd i'r Gweinidog sut yr oedd yn meddwl y bydd y Bil hwn yn gwella atebolrwydd a goruchwyliaeth gymesur yn

y byd addysg drydyddol heb rywfaint o'r fiwrocratiaeth.

Atebodd y Gweinidog:

Credaf fod yr Aelod yn gwneud pwynt pwysig. Credaf fod gwahaniaeth yn y dull o ymdrin ag addysg uwch ac addysg bellach am resymau y gwn y bydd yn eu deall. A chredaf fod hynny'n amlygu pwynt mwy, sef, er ein bod eisiau cael un sector, fod amrywiaeth o chwaraewyr o fewn y sector hwnnw, a chredaf mai'r cydbwysedd hwnnw yw'r cydbwysedd cywir i'w daro [...] Cyfeiriaf at y pwynt am ryddid academiaidd a wnaeth Sioned Williams, ond mae mecanwaith, wrth gwrs, ar gyfer cofrestru yn y Bil, ac mae amrywiaeth o ffyrdd y gall y comisiwn ymgysylltu â sefydliadau nad ydynt yn cydymffurfio â'u hamodau cofrestru. Ac mae'n rhyw fath o gyfres gynyddol o ymyriadau mewn gwirionedd ynglŷn â chynghor ac ymgysylltiad, ac yna mae posibilrwydd o gyfarwyddyd a gweithgaredd gorfodi llymach wedyn ar gyfer y senario fwyaf dybryd a mwyaf annhebygol, fel y byddai rhywun yn ei obeithio ac yn ei ddisgwyl.

Gofynnodd Hefin David AS i'r Gweinidog sut y gall yr 'ystod enfawr o alwadau' am gymorth ariannol a chymorth arall gan y cyrff sy'n cael eu rheoleiddio a'u cyllido gan y Comisiwn gael eu datrys mewn un corff, a sut y sicrheir tryloywder a sut y craffir ar hynny i sicrhau bod pawb yn y rhan newydd yn cael eu trin yn deg.

Atebodd y Gweinidog:

Mae'r ddamcaniaeth sylfaenol sy'n sail i'r Bil hwn yn awgrymu y bydd yn arwain at fwy o dryloywder i bob pwrpas yn y ffordd hon. A chredaf ein bod wedi cael ein hysbrydoli rywfaint gan y profiad yn Seland Newydd pan sefydlasant eu comisiwn cyfatebol, ac mae'n gweithredu ar sail debyg yn yr ystyr fod y Llywodraeth yn pennu'r strategaeth gyffredinol a bod gan y comisiwn ei gynllun strategol ei hun sy'n adlewyrchu'r gofynion hynny ac yn y blaen. Mae CCAUC eisoes yn gweithredu ar sail sy'n dryloyw yn y ffordd y mae'n dyrannu cyllid. Mae ar gael i'r cyhoedd, mae'r meini prawf wedi'u sefydlu ac mae'r symiau wedi'u dosbarthu mewn ffordd sy'n gyhoeddus iawn, a chredaf fod hynny'n rhywbeth sy'n haws ei gyflawni yn y math hwnnw o amgylchedd hyd braich. Felly, credaf mewn gwirionedd y bydd dwyn ynghyd y ffrydiau ariannu addysg bellach, dysgu oedolion a phrentisiaethau yn y ffordd hyd braich honno yn gwella tryloywder yn y ffordd y mae CCAUC, efallai, yn ei wneud ar gyfer addysg uwch ar hyn o bryd. Y fantais allweddol a ddaw yn sgil y cynigion yn y Bil yw bod yr arian yn cael ei ddyrannu ar sail y strategaeth gyhoeddus honno, os mynnwch, felly mae yna strategaeth wedi'i dyfeisio, sy'n destun ymgynghoriad ac yn dryloyw, ac nid y ffiniau rhwng sefydliadau, os mynnwch—neu'r ffiniau hanesyddol ar y pwynt hwnnw rhwng y ffynonellau cyllid—sy'n penderfynu sut y dyrennir yr arian hwnnw. Felly, credaf y bydd y ddau lwybr hwnnw'n gwella'r tryloywder ar draws y sector ôl-16 yn sylweddol.

6. Amserlen arfaethedig ar gyfer gweithredu

Nid yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddyddiadau cychwyn ar gyfer creu'r Comisiwn a diddymu CCAUC. Bydd hyn yn cael ei wneud drwy orchymyn. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod disgwyl i'r Comisiwn fod yn gwbl weithredol erbyn 2023-24, gyda chostau Prif Weithredwr wedi'u cyfrifo o fis Ionawr 2023. Mae amserlen ddisgwyliedig y Bil fel a ganlyn:

- Cyflwyno'r Bil: 01 Tachwedd 2021
- Diwedd Cyfnod 1: 15 Mawrth 2022
- Cyfnod 2 yn dechrau: 16 Mawrth 2022
- Cyfnod 3 yn dechrau: Mai 2022
- Cydsyniad Brenhinol: Awst 2022

Pryderon a fynegwyd gan randdeiliaid

Gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau o ran cost ac amserlen a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru a'r Senedd uchod, bydd Prif Weithredwr yn ei le bedwar mis ar ôl y cydsyniad (sy'n golygu bod y broses ddethol yn debygol o ddechrau heb fod yn hwyrach na phan roddir y Cydsyniad Brenhinol) a'r Comisiwn yn gwbl weithredol 4 mis wedi hynny ym mis Ebrill 2023. Mae rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon yn ystod ymgynghoriadau gan Lywodraeth Cymru ynghylch yr hyn y maent yn dadlau sy'n amserlen fer iawn i weithredu diwygiad o'r maint hwn.